



**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

Cosbi a diwygio: Dedfrydau Cymunedol Effeithiol

Papur Ymgynghori CP8/2012

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 27 Mawrth 2012

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Mehefin 2012

Mawrth 2012



Cosbi a diwygio: Dedfrydau Cymunedol Effeithiol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder trwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Mawrth 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Caniateir i chi ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylech anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn i effectivecommunitysentences@justice.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

Cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn gan y Llyfrfa dan gyfeirnod ISBN 9780101833424 ac ID 2483822 03/12

Am yr ymgynghoriad hwn

- At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at bob aelod o'r cyhoedd gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr cyfiawnder troseddol, darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill..
- Parhad:** Rhwng 27 Mawrth 2012 a 22 Mehefin 2012
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i dderbyn y papur mewn fformat arall) at :** Dedfrydau Cymunedol Effeithiol
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
8th floor, 8.22 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
- Ebost:**
effectivecommunitysentences@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 22 Mehefin 2012 i:
Dedfrydau Cymunedol Effeithiol
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
8th floor, 8.22 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
- Ebost:**
effectivecommunitysentences@justice.gsi.gov.uk
- Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich barn:** Gellir cyflwyno adborth i'r ymgynghoriad hwn ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/effective-community-services>
- Y papur ymateb:** Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref yn: <http://www.justice.gov.uk>

Rhagair Gweinidogol

Dylai system cyfiawnder troseddol effeithiol gosbi pobl sy'n torri'r gyfraith a diogelu pobl sy'n cadw at y gyfraith. Eto, mae gan ein system ni wendidau mawr. Mae bron i hanner yr oedolion sy'n troseddu yn aildroseddu o fewn blwyddyn i adael y carchar. Mae'r ffigur hwnnw'n codi i dri chwarter ar gyfer y rhai a ddedfrydir i ddalfa ieuencid. Amcangyfrifir bod aildroseddu gan droseddwr a ddedfrydwyd i lai na 12 mis o garchar yn costio hyd at £10bn i'r economi'n flynyddol. Yn fwy difrifol fyth, heb eu cywiro, mae'r lefelau aildroseddu hyn yn golygu bod miloedd o bobl yn dioddef yn ddiangen oherwydd troseddu.

Dyma pam mae'r Llywodraeth wedi cychwyn ar ddiwygio'r cwbl – gan ddechrau drwy sicrhau bod y carchar yn rhywle lle mae gwaith a hyfforddiant ystyrlon yn digwydd, nid dim ond llaesu dwylo, a lle bydd llawer mwy o garcharorion yn gweithio wythnos waith lawn, ac yn cael eu talu yn ôl eu canlyniadau, fel bod y trethdalwr ond yn talu am wasanaethau adsefydlu sy'n gweithio. Ynghyd â gweithredu pendant mewn meysydd fel iechyd meddwl a phroblemau caethiwed, bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau aildroseddu, gan amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol tra'n sicrhau bod troseddwr yn cael eu cosbi'n briodol.

Ond ni all y newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno orffen ar hynny. Y cam nesaf yn y broses ddiwygio yw dedfrydau yn y gymuned a gweithrediad y gwasanaeth prawf sy'n eu goruchwylio. Yn y ddau gyhoeddiad hwn, yr ydym yn ymgynghori arnynt gyda'i gilydd, rwyf yn cyflwyno cynlluniau radical i wneud dedfrydau cymunedol yn fwy credadwy ac i ddiwygio'r gwasanaeth prawf fel ei fod yn fwy effeithiol wrth leihau troseddu, drwy ymestyn cystadleuaeth ac agor y gwaith o reoli troseddwr risg isel i arloesedd ac egni yr ystod ehangaf posib o ddarparwyr.

Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y bydd y rhai a ddedfrydir i Gynllun Gwneud lawn â'r Gymuned, yn y dyfodol, yn gorfod gweithio wythnos gynhyrchiol lawn o bum diwrnod a chwilio am waith, gan gyflawni miloedd o oriau o waith adeiladol fel glanhau sbwriel a graffiti. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i gynyddu'r cyrffyw hiraf i 16 awr y dydd am 12 mis.

Ond bwriadwn fynd ymhellach na hyn, nid er mwyn creu dewis arall yn lle dedfrydau o garchar byr, ond i roi sylw i'r ffaith bod cyfraddau aildroseddu ar gyfer dedfrydau cymunedol yn llawer rhy uchel o hyd, ac nad ydynt yn llwyddo i ennill ffydd y cyhoedd eu bod yn gosb effeithiol. Rwyf yn rhannu pryderon y cyhoedd y gall dedfrydau gynnwys dim ond cyfarfod wythnosol gyda'r swyddog prawf – ac yn y gorffennol bod troseddwr di-waith a ddedfrydwyd i Gynllun Gwneud lawn â'r Gymuned wedi gorfod gweithio dim ond chwe awr yr wythnos.

Dan y cynigion yn yr ymgynghoriad byddwn:

- yn sicrhau bod elfen gosbi glir ym mhob gorchymyn cymunedol a wneir gan y llysoedd. Fel mater o egwyddor, mae'n briodol bod y rhai sy'n cyflawni troseddau'n disgwyl wynebu sancsiwn go iawn, ac un sy'n helpu i wneud iawn am y cam a wnaethant ag eraill;
- yn ymchwilio i greu atebion cosb gymunedol dwys a chadarn, y gall y llysoedd eu defnyddio gyda throseddwr sy'n haeddu cosb sylweddol; ac
- yn cefnogi gwneud defnydd mwy creadigol o gosbau ariannol ochr yn ochr â'r gorchymynion cymunedol, gan sicrhau y gosodir hwynt ar y lefel iawn ac y gorfodir hwynt yn effeithiol.

Mae sicrhau bod dedfrydau cymunedol yn cynnwys elfen briodol o gosb yn gymar i'n hymdrechion i sicrhau bod dedfrydau o garchar yn diwygio'n briodol. Ond nid y nod yn unig yw y bydd y dedfrydau hyn yn cael eu gweld yn gynyddol i fod yn gosb gredadwy, cadarn a chwyrn gan ddedfrydwyr, dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt hefyd yn ceisio gwneud dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol o ran helpu drwgweithredwyr i gywiro eu ffyrdd.

Er enghraifft, bydd ymestyn y defnydd o gyrffiw a thagio yn sicrhau bod troseddwr oddi ar y strydoedd, na fedrant gymdeithasu gyda'r nos a bod ganddynt lai o gyfle i droseddu. Ond, drwy eu defnyddio'n greadigol, byddant hefyd yn cyfrannu at ddiwygio'r troseddwr – drwy sicrhau eu bod adref cyn eu hapwyntiad ar gyfer triniaeth gyffuriau, neu'n cymryd rhan mewn Cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned. Rydym yn cynnig ehangu ar ddefnyddio arferion cyfiawnder adferol sy'n golygu bod gan ddiodefwyr mwy o lais mewn datrys troseddau ac yn y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol, tra'n mynnu hefyd bod troseddwr yn wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. A bydd gorchymynion cymunedol yn parhau i geisio datrys y problemau a achosodd, neu a gyfrannodd at yr ymddygiad troseddol yn y lle cyntaf – fel cyffuriau, alcohol a phroblemau iechyd meddwl. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae cosb ystyrlon a diwygio'n cyd-fynd.

Rydym hefyd yn cynnig diwygiadau i'r Gwasanaeth Prawf. Credaf yn gryf ym mhwystrwydd y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn, ac rwy'n cydnabod y gwaith rhagorol a wneir ar y rheng flaen gan lawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n galed iawn. Er bod y pwyslais yn sicr wedi symud oddi wrth gyflwyno gwasanaethau yn ganolog i'w cyflwyno'n lleol a bod llawer o enghreifftiau o arloesedd yn y gwasanaeth prawf, rydym eisiau gweld newid sylweddol sy'n gwneud defnydd llawn o arloesedd, arbenigedd a gwybodaeth leol pob sector – cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat – mewn ffordd sy'n croesawu cystadleuaeth ac sy'n wirioneddol yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau yn well.

Dan fy nghynlluniau, rydym eisoes wedi dechrau annog rheolwyr i wneud defnydd gwell o sgiliau a barn broffesiynol eu gweithwyr rheng flaen drwy gyflwyno Safonau Cenedlaethol llai rhagnodol i staff prawf a thrwy fod yn llai llym wrth reoli perfformiad. Yn awr, cynigiau edrych eto ar strwythur a threfniadaeth y gwasanaeth, gan roi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch y cyhoedd.

Mae'r ymgynghoriad:

- yn ymestyn ymhellach yr egwyddor o gystadleuaeth a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gyda'r ystad carchardai yn y blynyddoedd diwethaf, i system rheoli troseddwy'r fwy cymunedol. Cyflwynodd Deddf Rheoli Troseddwy'r 2007 y sail ar gyfer y polisi hwn ac mae angen prysuro ei weithrediad;
- yn edrych ar sut orau i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gallu gwneud defnydd o arbenigedd y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae hyn yn adeiladu ar bolisiau presennol i dalu darparwy'r dedfrydau cymunedol yn ôl eu canlyniadau;
- yn gweld yr Ymddiriedolaethau Prawf yn y dyfodol yn chwarae rôl fwy gyda chomisiynu gwasanaethau prawf a gystadlir, ac yn cael eu contractio i fod yn gyfrifol am bwysu am ganlyniadau gwell. Mae'n bwriadu creu gwahaniad clir rhwng y comisiynwyr a darpariaeth gwasanaethau; ac
- yn ymgynghori ar wahanol fodelau ar gyfer goruchwyllo gwasanaethau prawf, gan gynnwys ymwneud posibl yr Heddlu a Chomisiynwyr Troseddau ac awdurdodau lleol.

Credaf mewn gwasanaethau sy'n cystadlu fel modd o gynyddu ansawdd gwasanaethau cyhoeddus. Gall ddarparu arloesedd, gwell perfformiad a gwerth am arian. Dylai gwasanaethau gael eu hariannu gan drethdalwyr, ond cael eu darparu gan bwy bynnag sydd fwyaf addas i wneud hynny.

Dan fy nghynlluniau, bydd gan y sector cyhoeddus rôl bwysig a phendant o hyd – gan mai diogelwch y cyhoedd yw ein blaenoriaeth. Yn unol â'r model o gystadlu sydd ar waith gydag elfennau eraill o'r system gosbi, mae fy nghynlluniau'n rhagweld y bydd y cyfrifoldeb am fonitro'r troseddwy'r sy'n peri'r risg uchaf, gan gynnwys y troseddwy'r mwyaf difrifol a mwyaf treisgar, yn aros gyda'r sector cyhoeddus. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn awgrymu rhoi'r gwaith o reoli troseddwy'r risg isel ar y farchnad agored. Bydd y sector cyhoeddus hefyd yn cadw'r cyfrifoldeb o wneud rhai penderfyniadau lles cyhoeddus yn achos pob troseddwr, gan gynnwys asesu lefel y risg i gychwyn, cymryd camau lle torrir dedfrydau, a phenderfyniadau ynghylch galw troseddwy'r yn ôl i'r carchar. Mae ein cynigion hefyd yn eithrio o gystadleuaeth y cyngor a roddir gan y gwasanaeth prawf i'r llys. Mae'r cyngor hwn yn ymwneud yn bennaf â phennu beth yw'r dedfrydau mwyaf priodol i'w rhoi i droseddwy'r ac erlyn tor-dedfryd – sy'n gorfod aros gyda'r sector cyhoeddus.

Nod hyn oll yw rhyddhau system draddodiadol hen-ffasiwn a chyflwyno ffyrdd newydd o weithredu a darparu a fydd o gymorth o ran gyrru gostyngiad mewn aildrosedd. Rhaid i ni wneud hynny heb beryglu diogelwch y cyhoedd na dadsefydlogi perfformiad. Os llwyddwn, byddwn yn helpu i roi terfyn ar gyfnod gorchymyn a rheoli Whitehall ar wasanaethau cyhoeddus. Y wob'r fydd gwasanaeth prawf mwy deinamig ac effeithiol – un sy'n cadw pethau gorau'r sector cyhoeddus, ond sydd hefyd yn manteisio ar feddwl arloesol a hyblygrwydd byd busnes ac elusennau.

Nod y Llywodraeth yw diwygio dedfrydau yn y gymuned a gwasanaethau prawf fel bod modd iddynt gosbi a diwygio troseddwy'r yn llawer mwy

effeithlon. Nid yw cosbau cymunedol yn opsiwn yn lle dedfrydau byr yn y carchar. Rhaid eu gwneud yn gosbau mwy effeithiol ynddynt eu hunain os yw'r cyhoedd am fod â mwy o hyder ynddynt, ac os ydynt am leihau siawns troseddwr o gyflawni troseddau newydd yn erbyn dioddefwyr newydd. Bydd modd i wasanaeth prawf wedi'i foderneiddio, ac wedi'i ryddhau i ganolbwyntio'n ddygn ar y nod o leihau aildroseddu, allu datgloi gwell ffyrdd o gyflwyno'r dedfrydau hynny.

Kenneth Clarke
Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Mawrth 2012

Cynnwys

Rhagarweiniad	7
1. Cosbi caled ac effeithiol	11
Cosb Gymunedol Ddwys	11
Elfen gosbol ym mhob gorchymyn cymunedol	13
Gwneud defnydd creadigol o fonitro electronig	17
Atafaelu asedau troseddwy	20
Hyrwyddo mwy o gydymffurfio â gorchymynion cymunedol effeithiol	23Dirwyon mwy 24
2. Gwneud iawn ac adfer	31
Cyfiawnder adferol	32
Rhoi iawndal i ddiodefwr	36
3. Adsefydlu a diwygio	40
Talu yn ôl canlyniadau	40
Troseddwy sy'n ferched	41
Iechyd	44
Mynd i'r afael â throeddu cysylltiedig ag alcohol	45
Profi'r achos dros gynlluniau sobrwydd	46
Atodiad A – effeithiau ar gydraddoldeb	49
Atodiad B – rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad	50

Rhagarweiniad

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r cynigion ar gyfer diwygiadau radical i'r ffordd y gweithredir dedfrydau a gyflawnir yn y gymuned. Mae gan ddiodefwyr a chymdeithas yr hawl i ddisgwyl mai canlyniad troseddu fydd cosb, ac y byddant yn cael eu diogelu rhag aildroseddu pellach. Yn y pen draw, rhaid i ni anelu at leihau troseddu a gweld llai o ddiodefwyr.
2. Carchar fydd y ddedfryd gywir bob amser i droseddwr difrifol a pheryglus sy'n oedolion. Dylai llawer o droseddwr eraill gael eu cosbi a'u diwygio yn y gymuned, lle y gallant gynnal cysylltiadau pwysig â chyflogaeth, tai a theulu a fydd o gymorth iddynt allu byw heb droseddu. Gall dirwy gosbol, a orfodir yn gyflym ac effeithiol, daro troseddwr lle mae'n brifo fwyaf – yn ei boced. Gall gorchymyn cymunedol, wedi'i deilwra i sicrhau cosb glir, ad-dalu i ddiodefwyr a chymdeithas, ac i gefnogi'r troseddwr i fyw heb droseddu, fod yn ddedfryd gadarn ac effeithiol ar gyfer rhai troseddwr. Gall cyfiawnder adferol, o'i ddefnyddio'n briodol ochr yn ochr â chosb sicrhau bod troseddwr yn wynebu canlyniadau eu troseddau, yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd ac yn eu tro yn diwygio'u hymddygiad.
3. Mae tystiolaeth dda bod y cyhoedd yn agored i ystyried y dedfrydau hyn fel dewis synhwyrol yn yr amgylchiadau cywir, ac yn cytuno y dylid eu defnyddio fel ffordd o wneud i droseddwr dalu'n ôl i'r gymuned.
4. Ar hyn o bryd, nid yw'r fframwaith dedfrydu sy'n sail i ddedfrydau yn y gymuned yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir gan y cyhoedd. Felly hefyd y ffordd y mae cosbau cymunedol yn cael eu rheoli. Mae cyfraddau aildroseddu ar gyfer dedfrydau cymunedol yn parhau'n rhy uchel. Er bod gorfodi dirwyon wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae lle i wneud defnydd mwy hyblyg o gosbau ariannol yn ogystal â dedfrydau eraill neu yn eu lle. Er bod Gwneud Iawn â'r Gymuned (a elwir hefyd yn waith di-dâl) wedi rhoi cyfle i droseddwr gywiro peth o'r niwed a achosir ganddynt, mae angen llawer mwy o bwyslais mewn dedfrydau digarachar ar wneud iawn a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.
5. Yn ein Papur Gwyrdd *Torri'r Cylch (Breaking the Cycle)* mae'r Llywodraeth yn nodi'r cynlluniau ar gyfer diwygio'r ffordd y defnyddir dedfrydau a gyflawnir yn y gymuned, i gynyddu hyder y cyhoedd ynddynt ac i fynd i'r afael â'r broblem barhaus o aildroseddu. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn archwilio'n fwy manwl sut y gallwn gyflawni hynny.
6. Mae angen i orchmynion cymunedol fod yn drwm a chael eu gorfodi'n drwyadl fel eu bod mor gosbol ac effeithiol â dedfryd o garchar, os nad mwy felly. Mae'r Llywodraeth yn glir bod lle ar gyfer dedfrydau byr o garchar, ac nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'u disodli â dedfrydau cymunedol. Ond lle y mae troseddwr yn agos iawn at fynd i garchar,

rydym eisiau rhoi dewis gwirioneddol i ddedfrydwyr. Rydym yn ceisio eich barn chi ar sut y gallwn wneud hynny drwy becyn caled o ofynion a fyddai'n cynnwys Gwneud lawn â'r Gymuned, cyfyngiad sylweddol ar ryddid gyda chefnogaeth technoleg monitro electronig, a chosbau ariannol effeithiol.

7. Mae gormod o orchmynion cymunedol nad ydynt yn cynnwys elfen y byddai'r cyhoedd a throseddwyr yn ei hadnabod fel 'cosb'. Un o egwyddorion sylfaenol cyfiawnder yw y dylai'r rhai y cafwyd eu bod wedi troseddu gael eu cosbi. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i newid hynny ac yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn edrych sut y gallwn sicrhau bod pob gorchymyn cymunedol yn cynnwys elfen gosbol glir o waith di-dâl, cyfyngiad ar ryddid gyda chefnogaeth monitro electronig, neu gosb ariannol.
8. Mae hyn yn golygu datblygu'r opsiynau cosbol sydd ar gael i'r llysoedd. Bydd darpariaeth yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr yn cynyddu cyfanswm hyd cyrffyw fel y gallwn gadw troseddwy'r oddi ar y strydoedd am gyfnod hwy, eu hatal rhag cymdeithasu gyda'r nos, a chymryd cyfleoedd i achosi trafferthion oddi wrthynt. Rydym wedi rhoi terfyn ar y sefyllfa anfoddfaol lle y gallai troseddwy'r di-waith a ddedfrydwyd i Dalu'n ôl i'r Gymuned weithio am ddim ond chwe awr yr wythnos. Yn lle hynny bydd gofyn i'r troseddwy'r hyn weithio'n fwy dwys mewn ffordd sy'n debycach i ddiwrnod ac wythnos waith arferol. Rydym eisiau adeiladu ymhellach ar yr opsiynau caled hyn o ran cosbi drwy fod yn greadigol gyda'r dechnoleg sydd ar gael ar gyfer monitro symudiadau troseddwy'r, a thrwy archwilio'r defnydd o atafaelu asedau fel cosb ynddi'i hun y gellid hefyd ei hychwanegu at ddedfrydau cymunedol.
9. Rydym hefyd eisiau gweld dirwyon yn cael eu defnyddio'n fwy hyblyg i gosbi troseddwy'r. Ni ddylid cadw cosbau ariannol ar gyfer troseddwy'r ar y lefel isaf yn unig. Yn yr amgylchiadau cywir, gall dirwy drom fod yr un mor effeithiol â gorchymyn cymunedol o ran cosb. Yn yr ymgynghoriad hwn nodwn ein cynigion ar gyfer cefnogi dedfrydwyr i wneud defnydd mwy hyblyg o'r ddirwy, a gofynnwn am farn ar sut y gallwn wella'r wybodaeth sydd ar gael i lysoedd i sicrhau y caiff dirwyon eu gosod ar y lefel gywir.
10. Os yw cosbau cymunedol am gael eu cymryd o ddifrif gan droseddwy'r ac ennyn hyder dedfrydwyr a'r cyhoedd, mae angen eu gorfodi'n effeithiol. Mae gweithgarwch gorfodaeth wedi'i dargedu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), eisoes wedi creu gwelliannau i gyfraddau casglu dirwyon, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Yn yr un modd, ar gyfer gorchmynion cymunedol rydym eisiau sicrhau bod gan reolwyr troseddwy'r ddisgresiwn a phwerau digonol i sicrhau bod troseddwy'r yn cydymffurfio â'u dedfryd.
11. I fod yn gwbl effeithiol, dylai dedfrydau yn y gymuned nid yn unig gosbi a diwygio troseddwy'r, ond hefyd sicrhau bod troseddwy'r yn gwneud iawn

â'r gymuned am yn niwed a achoswyd ganddynt. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch sut y gallwn fynd ymhellach i sicrhau bod cynifer â phosibl o droseddwy'r yn gwneud iawn i ddiodefwy'r ac yn cymryd rhan mewn camau cyfiawnder adferol lle bo'n briodol.

12. Gydol ein hymdrechion i ddiwygio'r dedfrydau hyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n ddygn ar leihau aildroseddu. Bydd Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r yn cynyddu mynediad at driniaeth, ac yn cynyddu hyblygrwydd o ran ei darparu, ar gyfer troseddwy'r sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rydym yn arloesi gyda'r system rheoli troseddwy'r gyntaf yn y byd i dalu i ddarparwy'r yn ôl canlyniadau. Mae gennym ddulliau gweithredu wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer rhai merched sy'n droseddwy'r. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn fynd i'r afael â throseddu cysylltiedig ag alcohol, sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o droseddau treisgar.
13. Gyda'i gilydd, bydd y cynigion hyn yn cynnig fframwaith dedfrydu cadarn a fydd yn cosbi troseddwy'r, ennyn hyder y cyhoedd a chefnogi ein hymgyrch barhaus i leihau aildroseddu a diogelu mwy ar y cyhoedd.
14. Ni fydd y diwygio hwn yn digwydd ar ei ben ei hun. Bydd yn adeiladu ar raglen uchelgeisiol o ddiwygio a nodir yn *Torri'r Cylch (Breaking the Cycle)*. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer y diwygiad hwn wedi'u cynnwys yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.
15. Mae'r ymgynghoriad cysylltiedig ar y gwasanaeth prawf yn cynnig diwygiadau a fydd yn galluogi cyflwyno dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol ac effeithlon, gydag ymddiriedolaethau prawf yn cynyddu'u ffocws ar gomisiynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion lleol, gan harneisio arloesedd ac egni darparwy'r ar draws pob sector. O'r herwydd, rhaid cadw'r ymgynghoriad hwn mewn cof yng nghyd-destun newid gwasanaethau prawf.
16. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar ei strategaeth ar gyfer cefnogi diodefwy'r troseddau. Un o'n hamcanion yn y strategaeth honno yw symud i ffwrdd oddi wrth y diwylliant o iawndal gan y wladwriaeth tuag at droseddwy'r yn gwneud iawn uniongyrchol am y niwed a achosir ganddynt. Bydd ein diwygiadau i ddedfrydau yn y gymuned yn chwarae rhan wrth gyflawni'r newid hwnnw.
17. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn darparu'r sylfaen i'r Llywodraeth gyflawni ei gweledigaeth o leihau'r niwed a achosir i ddiodefwy'r a chymdeithas gan aildroseddu. Caiff ein llwyddiant cyffredinol ei fesur yn ôl y gostyngiad a achoswn yn y gyfradd aildroseddu.
18. Rydym yn dwyn y diwygiadau hyn ymlaen ar adeg heriol yn nhermau cyllid cyhoeddus. O ystyried tirlun ehangach cyfyngu a chyfnerthu ariannol, rhaid ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun pa mor fforddiadwy ydynt. Rhaid i'n diwygiadau ein galluogi i wneud yn well

gyda llai. Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym yn ceisio barn gan ddedfrydwyr ac ardaloedd lleol yn benodol i ddatblygu sut y gall dealltwriaeth o'r dewisiadau cysylltiedig â'r cynigion hyn gael eu cyflwyno. Mae'r asesiad effaith cysylltiedig yn nodi ein hamcangyfrifon am effaith y diwygiadau hyn; ond byddwn yn gwneud gwaith pellach fel rhan o'r ymarfer ymgynghori i asesu costau a chyfaddawdau gwneud hynny. Bydd gwerth am arian unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol o'r pwys mwyaf wrth ystyried gweithredu.

1. Cosbi caled ac effeithiol

19. Mae angen i orchmynion yn y gymuned fod yn drwm a chael eu gorfodi'n drwyadl fel eu bod mor gosbol ac effeithiol â dedfryd o garchar, os nad mwy felly. Yn y gymuned, gall troseddwr wynebu canlyniadau ei drosedd, cyflawni eu dedfryd a chynnal y cysylltiadau pwysig a all yn y pen draw eu symud o fyd troseddu ac felly arbed niwed pellach i'r cyhoedd. Fel hyn y mae i lawer o droseddwr sydd yn agos iawn at gael dedfryd o garchar.
20. Mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir yn *Torri'r Cylch* nad ydym yn dymuno dileu dedfrydau byr dan glo. Ein hamcan yw sicrhau bod dedfrydau yn y gymuned yn effeithiol o ran atal ymddygiad troseddol rhag cynyddu i bwynt lle nad oes unrhyw opsiwn arall ond carchar. Mae peth ymddygiad troseddol mor ddifrifol fel bod penderfyniad y dedfrydwr yn glir, a'r ddalffa yw'r unig ateb. Ar achlysuron eraill rhaid i ddedfrydwr benderfynu rhwng carchar a dedfryd gymunedol. Yn yr achosion hyn, rydym eisiau sicrhau bod gan lysoedd ystod ddigonol o opsiynau cadarn a fydd yn cosbi'r troseddwr ac yn helpu i atal troseddu pellach. Ond i fod yn eglur, nid ydym eisiau gweld dedfrydau cymunedol yn cymryd lle dedfrydau o garchar.
21. Yn yr adran hon, rydym yn edrych sut y gallwn greu a chyflwyno gorchymyn cymunedol caled a dwys ar gyfer y rhai sydd yn agos iawn at gael eu carcharu. Rydym hefyd yn ceisio barn ar sut y gallwn sicrhau bod pob gorchymyn cymunedol yn darparu elfen glir o gosb. I gefnogi hyn, mae'r ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer sut y gallai pwerau a thechnoleg newydd gefnogi darparu gorchymynion cymunedol cadarn a chosbol.
22. Mae'r adran hon yn edrych ar sut y gellid annog llysoedd i wneud defnydd mwy effeithiol o ddirwyon ochr yn ochr, neu yn lle, gorchymynion cymunedol. Rydym yn archwilio sut y gellid darparu gwell gwybodaeth am amgylchiadau ariannol troseddwr i lysoedd, ac yn nodi'r camau a gymerir gan GLITEM i wella casglu dirwyon.

Cosb Gymunedol Ddwys

23. Mae gan y llysoedd eisoes ystod o opsiynau ar gyfer darparu opsiynau ag elfen gadarn o adsefydlu yn y gymuned. Credwn fod angen ateb dwys, cadarn o ran cosb, y gall llysoedd ei ddefnyddio ar gyfer troseddwr sy'n haeddu lefel sylweddol o gosb, ond y mae'n well ymdrin â hwy yn y gymuned er mwyn cynnal cysylltiadau â gwaith a theulu – a fydd, yn y pen draw, yn lleihau'r risg iddynt aildroseddu. Ar yr amod bod y dedfrydau hyn yn ddigon cadarn ac yn cyfyngu ar y cyfle i droseddwr droseddu ymhellach, teimlwn fod hyn yn fargen well i ddiodefwr.

24. Dyna paham ein bod yn cynnig datblygu Cosb Gymunedol Ddwys, a fydd yn cynnwys cyfuniad caled o'r canlynol:
 - Gwaith di-dâl;
 - Cyfyngiadau sylweddol ar ryddid drwy gyrffiw a gaiff ei fonitro'n electronig, gwaharddiad, a gwaharddiad ar deithio dramor;
 - Gwaharddiad gyrru; a
 - Dirwy.
25. Wrth ystyried rhoi Cosb Gymunedol Ddwys fe allai fod rhesymau cadarnhaol paham na fyddai'r llys eisiau rhoi gwaharddiad gyrru. Gallai hyn fod yn wir pe byddai hynny'n effeithio ar allu troseddwr i symud i ffwrdd oddi wrth droseddu, er enghraifft lle y mae angen car ar droseddwr i yrru yn ôl a blaen i'r gwaith, neu ar gyfer gofal plant.
26. Yn ddiweddarach yn y papur rydym yn edrych ar y potensial ar gyfer mesurau cosbol newydd ar gyfer y llysoedd. Ym mharagraffau 55 i 60, rydym yn edrych ar y potensial ar gyfer defnyddio gwelliannau ym maes technoleg monitro electronig i olrhain troseddwr; ac ym mharagraffau 61 – 74, rydym yn edrych ar greu grym annibynnol i'r llysoedd gymryd asedau oddi ar droseddwr. Yn y dyfodol, os bwrir ymlaen â hwy, gallai'r rhain ffurfio rhan o Gosb Gymunedol Ddwys.
27. Credwn y bydd y gorchmynion hyn yn gweithio orau os byddant yn rhai byr ond dwys – uchafswm o 12 mis. Dylai troseddwr dreulio'u hamser mewn gweithgaredd pwrpasol, boed yn eu swyddi eu hunain neu fel rhan o gynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned, gydol yr wythnos. Bydd yr hawliau a gymerir yn ganiataol gan y rhan fwyaf ohonom – i gymdeithasu y tu allan i'w cartrefi gyda'r nos, i deithio – yn cael eu cymryd oddi arnynt am gyfnod eu dedfryd. Bydd modd i lysoedd ychwanegu gofynion at hyn gyda'r nod o sicrhau gwneud iawn â'r dioddefwr a'r gymuned – megis gorchmynion iawndal a gweithgareddau adferol. Bydd modd iddynt hefyd ychwanegu gofynion adsefydlu lle bo angen. Bydd hyn, gyda'i gilydd, yn creu ymateb cosbol i droseddu.
28. Mae rhai ardaloedd prawf eisoes yn cynnig dedfrydau cymunedol dwys ac roedd y cynlluniau peilot Dewisiadau Dwys yn Lle Carchar (IAC) yn fersiwn o hyn. Roeddynt yn cyfuno goruchwyliaeth ddwys gan y gwasanaeth prawf â chymysgedd o ofynion trwm ac ymyriadau ac roeddynt yn parhau am 12 mis, yn fras.
29. Ers i gyllid canolog ar gyfer cynlluniau peilot ddod i ben ym Mawrth 2011, mae llawer o ardaloedd wedi parhau i gynnig gorchmynion dwys, a saif y rhain yn aml ochr yn ochr â Rheoli Troseddwr yn Integredig, fel y gellir manteisio ar fewnbwn yr heddlu. Gall hyn alluogi mwy o ddefnydd o ofynion megis gweithgaredd gwaharddedig a gwaharddiadau, sydd fel arall yn anodd eu monitro a'u gorfodi. Gellir gwahardd o strydoedd neu siopau penodol ac mae'r gweithgareddau gwaharddedig yn cynnwys mynd i dafarndai penodol neu ymwneud ag unigolion penodol.

30. Dengys yr wybodaeth sydd ar gael bod y gorchymyn cymunedol dwys cyfredol fel arfer yn cynnwys rhwng tri a phump o ofynion. Mewn rhai ardaloedd mae rhai gofynion penodol, megis cyrffiw, cynlluniau Gwneud lawn â'r Gymuned dwys, goruchwyliaeth neu raglenni achrededig, wedi'u gwneud yn orfodol. Mae llawer o'r gorchmynion yn targedu cam-drin sylweddau, gan gynnwys cyfiawnder adferol ac yn parhau â'r mentora allstatudol a oedd yn rhan hanfodol o IAC.
31. Ein cynnig yw y dylai Cosb Gymunedol Ddwys adeiladu ar yr IAC, ond cynnwys cnewyllyn o elfennau cosbol. Ein huchelgais ni yw i'r gorchmynion hyn fod ar gael i lysoedd ym mhob ardal. Gallant, fodd bynnag, alw am lawer o adnoddau ac yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau Prawf i archwilio i bwy y byddai'r gorchmynion fwyaf addas, pa elfennau hanfodol ddylai fod ynddynt, ac i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r costau. Bydd hyn o gymorth i adeiladu darlun o'r dewisiadau o ran gweithredu a'r cyfaddawdau posibl fyddai'n cael eu gwneud er mwyn galluogi hynny. Rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol gan ystyried gwerth am arian unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 1) Pa elfennau craidd ddylai Cosb Gymunedol Ddwys eu cynnwys?
- 2) Ar gyfer pa droseddwy'r fyddai Cosb Gymunedol Ddwys yn addas?

Elfen gosbol ym mhob gorchymyn cymunedol

32. Datblygwyd y gorchymyn cymunedol i ddarparu mwy o hyblygrwydd i ddedfrydwyr gyflwyno dedfryd a allai ymateb yn briodol i'r trosedd a gyflawnwyd a chosbi'r troseddwr yn ogystal â mynd i'r afael â' rhesymau sydd wrth wraidd troseddu. Yr oedd yn ceisio cynorthwyo'r troseddwr i ailintegreiddio i gymdeithas a darparu modd iddynt adfer y niwed a achoswyd ganddynt fel y gallent unwaith eto fod yn aelodau o gymdeithas sy'n parchu'r gyfraith.
33. Yr ydym yn glir y gall y gorchymyn cymunedol fod yn fwy effeithiol mewn llawer achos na dedfrydau byr o garchar a hefyd yn drymach. Profwyd bod lefelau aildroseddu ymysg y troseddwy'r hynny a dderbyniodd orchmynion cymunedol yn 2008, 8.3 pwynt canran yn is na'r rhai ar gyfer unigolion a fwriodd ddedfrydau byr o garchar (dan 12 mis) ar ôl rhoi ystyriaeth i wahaniaethau rhwng troseddwy'r.
34. Fodd bynnag, mae llawer gormod o orchmynion cymunedol nad ydynt yn cynnwys elfen gosbol ochr yn ochr â gofynion eraill yn anelu at adsefydlu a gwneud iawn, ac felly nid ydynt yn rhoi arwydd i gymdeithas na fydd troseddu'n cael ei oddef. Nid ydynt ar hyn o bryd yn ymateb mor effeithiol i droseddu ag y gallent ac rydym eisiau newid hynny.

Y defnydd cyfredol o orchmynion cymunedol

Dechreuodd cyfanswm o 118,696 o oedolion orchymyn cymunedol yn 2010. Dengys y tabl isod beth yr oedd y gorchmynion cymunedol hyn yn eu cynnwys drwy gyfeirio at y nifer o ofynion a'r cyfuniad o ofynion a ddefnyddiwyd amlaf mewn gorchmynion cymunedol a ddechreuwyd yn 2010.

Nifer y gofynion		Gofynion a defnyddiwyd amlaf	
Un	50%; 59,195	Gwaith di-dâl yn unig	33%
Dau	35%; 42,077		39,170
Tri	12%; 14,409	Goruchwyliaeth yn unig	11%
Pedwar +	3%; 3,015		13,288
Cyfanswm	118696	Cyfanswm	52,458 (44% o gyfanswm nifer y gorchmynion cymunedol a roddwyd)

Y gorchymyn cymunedol mwyaf cyffredin oedd un gofyniad o Wneud lawn â'r Gymuned (a elwir hefyd yn waith di-dâl) (a roddwyd i 33% o oedolion yn cychwyn gorchymyn cymunedol yn 2010). Cwblhawyd oddeutu dwy ran o dair o orchmynion cymunedol a ddaeth i ben yn 2010 neu terfynwyd hwy'n gynnar oherwydd cynnydd da.

Beth yw gofyniad cosbol yn y gorchymyn cymunedol?

Pum pwrpas dedfrydu

- Cosbi troseddwr
- Lleihau troseddu (gan gynnwys ei leihau drwy ei atal)
- Diwygio ac adsefydlu troseddwr
- Amddiffyn y cyhoedd
- Gwneud iawn gan droseddwr i unigolion a effeithiwyd gan eu trosedd

35. Mae'r gyfraith yn darparu'n benodol y gellir rhoi goruchwyliaeth i ddibenion adsefydlu, a gallai'r gofyniad gweithgarwch fod i ddibenion gwneud iawn. Ond mae modd i lawer o ofynion gyflawni mwy nac un diben unigol.

36. Er enghraifft, mae gwaith di-dâl yn cynnwys elfen adferol gref, gan ei fod yn sicrhau bod y troseddwr yn rhoi rhywbeth yn ôl i gymdeithas. Ond y mae hefyd yn gosbol gan ei fod yn gwneud i droseddwr wneud rhywbeth na fyddent fel arfer eisiau ei wneud ac yn eu hatal rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd fyddai'n well ganddynt. Gall hefyd adsefydlu drwy achosi i droseddwr fynd i'r arfer o waith rheolaidd.

37. Gall cyrffiw gyda monitro electronig ddarparu cosb a gwarchodaeth i'r cyhoedd gan ei fod yn cyfyngu ar ryddid troseddwr ac yn galluogi'r heddlu i fonitro ble y mae er budd atal troseddu. Mae hyblygrwydd yn nodwedd gadarnhaol allweddol i'r gorchymyn cymunedol ac yn un y gallwn ei ddefnyddio ymhellach er ein budd ein hunain.

Gofynion gorchymyn cymunedol

- Triniaethau Alcohol
- Adsefydlu oherwydd Cyffuriau
- Rhaglen
- Gweithgaredd
- Canolfan Bresenoli
- Gwaharddiad
- Gweithgaredd a Waherddir
- Goruchwyliaeth
- Cyrffiw
- Triniaeth Iechyd Meddwl
- Preswyllo
- Gwaith Di-dâl

Mae'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr yn cyflwyno'r ddau ofyniad canlynol:

- Gwaharddiad ar deithio dramor
- Gofyniad ymatal rhag yfed alcohol a gofyniad monitro

38. Mae pob gorchymyn cymunedol yn cynnwys peth cyfyngu ar ryddid troseddwr ac yn y cyswllt hwnnw gellir eu hystyried yn gosbol i ryw raddau. Ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyletswydd ar y llysoedd i ddewis gofyniad sydd â chosb fel ei brif ddiben ac mae llawer o achosion lle nad yw gorchymynion cymunedol yn cynnwys dim ond goruchwyliaeth. Gall goruchwyliaeth fod yn hynod werthfawr o ran adsefydlu troseddwr a'i annog i wynebu ei ymddygiad, a gall fod yn drwm i droseddwr sydd erioed o'r blaen wedi troi i fyny am apwyntiadau. Ond nid yw yn gosbol yn y lle cyntaf, ac ar ben ei hun mewn dedfryd, gall gael ei weld fel rhywbeth sy'n methu ag anfon neges glir y byddir yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.
39. Un o fanteision allweddol gorchymynion cymunedol yw'r gallu iddynt gael eu teilwra i amgylchiadau'r troseddwr. Credwn fod yn rhaid i elfen gosbol y gorchymyn cymunedol fod yn rhyw fath o waith di-dâl, cosb ariannol neu gyfyngiad sylweddol ar ryddid y troseddwr megis cyrffiw sy'n cael ei fonitro'n electronig. Wrth bennu pa un o'r rhain i'w osod, dylid parhau i gydbwysu amgylchiadau penodol y troseddwr â'r angen i roi arwydd eu bod yn cael eu cosbi am dorri'r gyfraith. Gallai hyn olygu gosod cyrffiw a all weithio o gwmpas cyfrifoldebau gofal plant unigolyn, neu deilwra

gofynion i ymdrin â materion iechyd meddwl y gallai troseddwr fod yn dioddef ohonynt.

40. I rai troseddwr, efallai y gall gofynion eraill y gorchymyn cymunedol, megis gwaharddiad neu weithgaredd gwaharddedig, ddarparu'r elfen gosbol yn hytrach na gwaith di-dâl neu dag. Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn yn electronig fel y trafodir isod. Gallai eraill gael eu cosbi â dirwy – y gellir ei gosod ar lefel sy'n berthnasol i incwm y troseddwr fel ei bod yn golygu cosb wirioneddol – ar ben ei hun neu fel rhan o orchymyn cymunedol.
41. Mae angen i ni hefyd ystyried y troseddwr hynny nad yw gofyniad penodol gosbol yn addas na hyd yn oed yn bosibl ar eu cyfer. Efallai nad oes modd i rai troseddwr gyda materion iechyd meddwl er enghraifft wneud gwaith di-dâl. Rhaid i ni osgoi taseilio ein hymdrechion i ddiwygio troseddwr a lleihau troseddu felly mae angen i ni sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth gorfodol i gynnwys elfen gosbol ym mhob gorchymyn cymunedol yn cynnwys eithriadau a all ddarparu ar gyfer troseddwr o'r fath.
42. Ym mhob achos arall, fodd bynnag, dylid gosod elfen gosbol y gellir ei hadnabod yn benodol.
43. Byddem yn croesawu eich barn ar sut orau y gallwn gydbwysu dibenion dedfrydu a sut y gallwn annog defnydd mwy creadigol o ofynion sydd ar gael ar gyfer gorchymynion cymunedol i sicrhau bod pob gorchymyn cymunedol yn cosbi a diwygio troseddwr yn ogystal â sicrhau gwneud iawn â chymdeithas. Hoffem edrych gyda dedfrydwr ar y cyfaddawdau posibl a goblygiadau cyflwyno mesurau o'r fath. Drwy'r ymgynghoriad byddwn yn gweithio gydag ardaloedd lleol i ddatblygu ein dealltwriaeth o oblygiadau ariannol y cynigion hyn, gan gynnwys y goblygiadau posibl ar gyfer torri amodau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 3) Ydych chi'n cytuno y dylai pob troseddwr sy'n derbyn gorchymyn cymunedol fod yn destun sancsiwn gyda'r nod o gosbi'r troseddwr ('elfen gosbol')?
- 4) Pa rai o ofynion y gorchymyn cymunedol sy'n gosbol yn eich barn chi?
- 5) A oes rhai dosbarthiadau o droseddwr (neu amgylchiadau penodol) na fyddai elfen gosbol dedfryd yn addas ar eu cyfer?
- 6) Sut y dylid dedfrydu troseddwr o'r fath?
- 7) Sut y gallwn ni sicrhau orau bod dedfrydau yn y gymuned yn cyflawni cydbwysedd rhwng pob un o'r pum diben dedfrydu?

Gwneud defnydd creadigol o fonitro electronig

44. Bu i ni edrych ar y gofyniad cyrffyw a gaiff ei fonitro'n electronig yn *Torri'r Cylch*. Mae gosod gofyniad cyrffyw ar unigolyn yn ffordd effeithiol o'u cosbi gan ei fod yn cyfyngu ar eu rhyddid: gall llysoedd osod amodau beichus ar droseddwyr, gan gyfyngu ar eu gallu i droseddu. Gan ddefnyddio monitro electronig i olrhain troseddwyr sy'n ddarostyngedig i ofyniad cyrffyw, mae modd i ni sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dedfryd, sydd yn ei dro yn cynyddu amddiffyn y cyhoedd.
45. Yn *Torri'r Cylch*, buom yn ceisio eich barn ar sut y gallem wneud mwy o ddefnydd o'r gofyniad cyrffyw. Drwy'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr rydym yn paratoui'r ffordd ar gyfer cyflawni hyn drwy ganiatáu i lys i osod gofyniad cyrffyw am gyfnod hwy fel rhan o orchymyn cymunedol. Yn lle uchafswm o ddeuddeg awr y dydd, bydd y llys yn gallu gosod hyd at un awr ar bymtheg y dydd. Yn lle bod yr uchafswm cyffredinol yn chwe mis, bydd y llys yn gallu gosod gofyniad cyrffyw o hyd at ddeuddeg mis. Bydd galluogi'r llysoedd i osod cyrffyw hwy fel hyn yn galluogi'r gorchymyn cymunedol i fod yn fwy cosbol ac yn gosb addas ar gyfer troseddwyr mwy difrifol.
46. Yr ydym yn ymwybodol bod cyrffyw eisoes yn cael ei ddefnyddio'n ddychmygus a chosbol fel rhan o'r gorchymyn cymunedol a dymunwn annog hyn. Gellir defnyddio cyrffyw i sicrhau bod troseddwr gartref yn union cyn bod yn rhaid iddo ymgymryd â rhyw ofyniad arall yn y gorchymyn megis gwaith di-dâl neu apwyntiad goruchwyllo, gan gynyddu'r siawns iddo gadw'r apwyntiad. Mae llysoedd yn gwneud defnydd creadigol o gyrffyw er enghraifft:
 - Rhoi cyrffyw i droseddwr yn y prynhawniau, pryd y bydd yn arfer mynd i ddwyn o siopau. Yn y bore roedd eu gorchymyn cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynychu sesiynau adsefydlu ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau.
 - Rhoi cyrffyw i droseddwr am gyfnodau byr yn ystod y dydd i'w atal rhag cael digon o amser i deithio i'r ardal lle y mae'n dueddol o droseddu.
47. Mae enghreifftiau o'r fath yn dangos y sgôp ar gyfer cosbi troseddwyr a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu o'u cymharu â' chyfnod safonol arferol cyrffyw sef 7am i 7pm.

Defnydd gwahanol o dechnoleg monitro electronig gyda gorchymynion cymunedol

48. Mae deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu defnyddio dechnoleg monitro electronig (EM) i fonitro cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion eraill a osodir gan y llys fel rhan o orchymyn cymunedol.
49. Caiff y rhan fwyaf o EM ei ddarparu ar hyn o bryd drwy gyfrwng dechnoleg Amledd Radio (RF). Yn 2010 roedd 52,000 cyrffyw yn rhan o orchymynion cymunedol neu orchymynion dedfryd ohiriedig a gychwynnwyd ar gyfer

oedolion. Mae'r dechnoleg hon wedi profi'n gadarn a dibynadwy ac yn ffordd gywir o fonitro cydymffurfiaeth troseddwr â gofynion ei gyrrffyw.

50. Fodd bynnag, cyfyng yw gallu technoleg RF – mae'r offer yn cynnwys tag a wisgir am sawdl y troseddwr ac sy'n anfon signalau i dderbynnydd (neu Uned Monitro Cartref) sy'n dweud wrth y darparwr monitro a yw'r troseddwr yn bresennol mewn cyfeiriad penodedig yn ystod amseroedd penodedig. Felly, yn ymarferol, cyrrffyw yw'r unig ofyniad a gaiff ei fonitro'n electronig ar hyn o bryd. Rydym eisiau adeiladu ar brofiadau cadarnhaol monitro cyrrffyw i weld a allwn wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg yng nghyswllt monitro cydymffurfiaeth â gofynion eraill y gorchymyn cymunedol
51. Cafodd nifer fechan o droseddwr a oedd yn destun gorchymynion cymunedol eu holrhain mewn tair rhaglen beilot olrhain drwy loeren a gynhaliwyd ym Manceinion, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Hampshire rhwng Medi 2004 a Mehefin 2006. Yr oedd y troseddwr a olrheiniwyd yn ystod y cynlluniau peilot hyn un ai yn rhai â risg uchel o aildroseddu neu risg uchel o niwed, gan gynnwys troseddwr a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a threisiol.
52. Mae'n amcan strategol i'r gystadleuaeth am y contractau EM newydd gyflwyno technolegau monitro lleoliad megis GPS (Global Positioning System) a GSM (Global System for Mobile Communications), sydd wedi symund ymlaen ers y cynlluniau peilot, ac y gellid eu defnyddio i gryfhau gorchymynion cymunedol yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai technolegau monitro lleoliad gael eu cyfuno â gallu RF presennol er enghraifft. Rydym eisiau i dechnolegau newydd roi mwy o hyblygrwydd i orchymynion cymunedol a bod yn fwy cost-effeithiol.
53. Gallai'r technolegau hyn o bosibl gynorthwyo i gryfhau gorchymynion cymunedol ymhellach yn y dyfodol drwy ganiatáu i ni fonitro'n fwy effeithiol y gydymffurfiaeth â gofynion eraill a roddir gan y llysoedd, yn ogystal â monitro cyrrffyw. Er enghraifft, yn ddarostyngedig i gyllid priodol a newidiadau deddfwriaethol, defnyddir technolegau newydd i fonitro cydymffurfiaeth â:
 - gofynion cau allan (gallai hyn olygu atal troseddwr rhag mynd i rai manau penodol – er enghraifft cartref dioddefwr neu gartref rhywun y gwyddys sy'n gydymaith iddo);
 - cynlluniau peilot ymatal rhag alcohol (drwy ofyniad newydd ymatal rhag alcohol a monitro);
 - gofynion gwaharddiad teithio tramor ;
 - gofynion preswyllo.
54. Yn dilyn cyhoeddi'r Sterategaeth Seiber Ddiogelwch ym mis Tachwedd y llynedd, byddwn hefyd yn ystyried ac yn mesur cwmpas datblygu ffordd newydd o orfodi cyfyngiadau ar ddefnyddio cyfrifiaduron, drwy seibr-

dagiau. Rydym yn ystyried sut y gellid defnyddio'r rhain dan y fframwaith gorchymynion cymunedol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 8) A ddylem, pe byddai technolegau ar gael ac yn fforddiadwy, annog defnyddio technoleg monitro electronig i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion gorchymyn cymunedol (yn ogystal â gofynion cyrffiw)?
- 9) Pa ofynion gorchymyn cymunedol, yn ogystal â chyrffiw, a allai gael eu monitro'n fwyaf effeithiol yn electronig?
- 10) A oes ffyrdd eraill y gallem ddefnyddio cyrffiw a gaiff ei fonitro'n electronig yn fwy dychmygus?

Defnyddio monitro electronig i olrhain troseddwr

55. Mae'r datblygiadau sylweddol mewn technoleg EM hefyd yn rhoi cyfle i ni ystyried ymhle y gellir eu defnyddio mewn ffyrdd eraill newydd a gwahanol y tu hwnt i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion gorchymynion cymunedol.
56. Rydym eisoes yn defnyddio technoleg EM i gasglu gwybodaeth wrth wyllo symudiadau troseddwr i reoli troseddwr mynych ar drwydded ac i wella diogelwch y cyhoedd. Rydym yn agored i ystyried sut y gellid defnyddio'r technolegau sydd ar gael o bosibl, drwy dargedu effeithiol, i amddiffyn y cyhoedd ymhellach ac i leihau aildroseddu. Rydym yn ymwybodol, er enghraifft, bod gwledydd eraill wedi ceisio defnyddio technolegau o'r fath i fynd i'r afael â throseddwr difrifol sy'n stelcio neu'n cyflawni trais domestig (megis Sbaen a Ffrainc) neu ofynion sobrwydd drwy dagio yn Unol Daleithiau'r America, fel y nodir isod.
57. Rydym o'r farn y gallai'r technolegau newydd hyn i gasglu lleoliadau, lle profant yn ddibynadwy ac y targedir hwy'n effeithiol a phriodol ar droseddwr risg uchel, fod â'r capasiti i ddarparu mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd drwy olrhain lleoliad troseddwr a allai weithredu fel rhwystr a lleihau aildroseddu. Gallai hefyd fod yn bosibl defnyddio'r technolegau hyn i gynorthwyo'r heddlu wrth ymchwilio i droseddau drwy olrhain lleoliad troseddwr. Fe hoffem ystyried yn ofalus gostau a manteision defnyddio'r dechnoleg yn y ffyrdd newydd hyn.
58. Mae angen i ni edrych sut i wneud defnydd o'r fath yn addas ac yn hyfyw o fewn ein hawdurdodaeth. Hefyd, fel y nodir uchod, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol ond yn caniatáu gosod gofyniad monitro electronig ar droseddwr i fonitro cydymffurfiaeth â gofyniad gorchymyn cymunedol (mae darpariaethau gwahanol yn berthnasol i droseddwr a ryddheir o garchar ar drwydded). Byddai felly'n angenrheidiol cael prif

ddeddfwriaeth er mwyn gosod gofyniad monitro electronig i ddibenion gwahanol i hynny (er enghraifft i atal aildroseddu.

59. Byddai defnyddio technoleg monitro electronig i olrhain troseddwy ar orchymynion cymunedol i ddibenion atal aildroseddu yn symudiad sylweddol oddi wrth yr arfer cyfredol. Byddai o bosibl yn golygu monitro troseddwy drwy'r amser. Bydd angen i ni ystyried yn llawn oblygiadau posibl y cynigion hyn o ran iawnderau sifil.
60. Byddai angen mesurau diogelu priodol yn eu lle hefyd i sicrhau bod y dechnoleg newydd yn cael ei defnyddio'n briodol ac i sicrhau cydymffurfio â gofynion hawliau dynol a diogelu data. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ystyried dibenion gofyniad o'r fath yn ofalus, am ba hyd y byddai troseddwy yn cael eu holrhain, ac am ba hyd y dylid cadw'r data a gesglir.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 11) A fyddai olrhain rhai troseddwyr penodol (fel rhan o ddedfryd ddigarchar) yn effeithiol o ran atal troseddu yn y dyfodol?
- 12) Pa fathau o droseddwyr fyddai'n addas ar gyfer eu holrhain? Er enghraifft, rhai â risg uchel o aildroseddu neu achosi niwed, gan gynnwys troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar?
- 13) I ba ddiben y gellid defnyddio monitro electronig orau?
- 14) Beth yw goblygiadau olrhain troseddwyr o ran rhyddid sifil a beth ddylem ni ei wneud i roi sylw iddynt?

Atafaelu asedau troseddwy

61. Mae gan lysoedd ystod o bwerau eisoes i atafaelu asedau troseddwyr mewn rhai amgylchiadau penodol. Ar gyfer troseddwyr sy'n peidio â thalu cosbau ariannol, ac y byddai dull gweithredu mwy cefnogol o ran talu'n aneffeithiol neu'n amhriodol ar eu cyfer, mae gan lysoedd rym i gyflwyno gwarantau atafaelu. Mae gwarant atafaelu yn awdurdodi beiliaid i atafaelu a gwerthu nwyddau i adennill y ddyled sydd heb ei thalu i'r llys.
62. Mae gan lysoedd hefyd bwerau annibynnol i amddifadu troseddwy o eiddo cysylltiedig â throsedd. Drwy orchymyn amddifadu gall llysoedd atafaelu eiddo megis celfi neu gerbydau a ddefnyddiwyd gan droseddwr i gyflawni neu hwyluso trosedd. Drwy orchymyn adfer gall llysoedd ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr adfer nwyddau dioddefwyr sydd wedi eu dwyn neu eu cymryd oddi arnynt yn anghyfreithlon fel arall.
63. Yn olaf, drwy orchymynion atafaelu a roddir dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 gall llysoedd orchymyn cymryd oddi ar droseddwyr arian ac asedau eraill sy'n gysylltiedig ag enillion troseddu. Mae gorchymynion atafaelu ar wahân i'r ddedfryd a roddir am drosedd, ac mae'r rhain a grymoedd eraill yn ymwneud ag adennill enillion troseddau y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

64. Yn *Torri'r Cylch* bu i ni ymgynghori a oedd lle i wneud defnydd mwy effeithiol o atafaelu asedau o fewn y fframwaith presennol ar gyfer ymdrin â throeddwy. Daeth nifer o'r rhai a ymatebodd i'r casgliad y gallai'r llysoedd wneud defnydd mwy effeithiol o'u pwerau i godi gwarantau atafaelu yn erbyn troeddwy nad ydynt wedi talu dirwyon. Felly mae'r Llywodraeth wedi cychwyn cynllun peilot i wneud defnydd cynt a mwy effeithiol o warantau atafaelu i gasglu asedau ac arian parod.
65. Mae gwarantau atafaelu yn arf pwysig i'r llysoedd o ran sicrhau y telir dirwyon, lle y mae dulliau mwy cefnogol o ran gorfodaeth wedi methu. Maent yn rhoi opsiwn i'r troeddwr dalu'r ddyled sydd heb ei thalu – un ai yn llawn neu drwy gytuno i raglen o randaliadau – neu gael nwyddau hyd at werth y ddyled wedi'u cymryd oddi arnynt. Gall beiliaid sy'n gweithredu ar ran y llys hefyd godi ffi ar ben y ddyled i adennill eu costau.
66. Ym mlwyddyn ariannol 2010/11 cododd GLITEM 564,000 o warantau atafaelu, gan ganolbwyntio ar droeddwy'r oedd dulliau eraill o orfodaeth megis Atafaelu Enillion, wedi methu mewn perthynas â hwy. Yn ystod yr haf y llynedd, bu GLITEM yn profi dull cyflymach a chadarnach o godi gwarantau atafaelu.
67. Cynhaliwyd y profion dros yr haf ar Lannau Mersi, yn Swydd Gaer ac yn Swydd Gaergrawnt. Dewisodd swyddogion gorfodi llysoedd achosion a oedd yn addas ar gyfer codi gwarantau atafaelu yng nghyswllt troeddwy'r gyda dwy neu fwy o ddirwyon heb eu talu, lle yr oedd ceisiadau i annog talu'n wirfoddol wedi methu, neu, yn achos Sir Gaergrawnt, lle yr oedd gan ardal ddaearyddol benodol gyfradd isel o lwyddiant o ran casglu dirwyon.
68. Trosglwyddwyd gwarantau i'r beiliaid gyda gofyniad bod yn rhaid i bob gweithgarwch ar warantau gael ei gwblhau cyn pen 30 diwrnod, gan wneud yr ymweliad cyntaf â'r troeddwr cyn pen 10 diwrnod. Fel arfer mae gan feiliaid gyfnod o 180 diwrnod ar gyfer gweithredu gwarantau. Yr oedd beiliaid hefyd yn gwneud yn glir y gallai eiddo gael ei gymryd oddi arnynt hyd yn oed os nad oedd yn cwrdd â gwerth llawn y dyledion a'r costau a oedd heb eu talu. Lle yr oedd beiliaid yn gallu dod o hyd i rai nad oedd wedi talu, canlyniad y mwyafrif helaeth o warantau a godwyd oedd bod unrhyw ddirwy ddyledus wedi'i thalu'n llawn. Er yn llwyddiannus, cynhaliwyd y profion hyn gyda nifer gymharol fach o achosion. Rydym yn awr yn ystyried sut y gallwn gyflwyno'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot hwn yn ehangach.
69. Yn ein barn ni y mae atafaelu asedau yn anfon neges gadarn i droeddwy'r bod canlyniadau sylweddol i'w gweithredoedd. Rydym hefyd eisiau edrych a oes unrhyw ffordd ymarferol a fforddiadwy i gyflwyno grym dedfrydu newydd a fyddai'n caniatáu i lysoedd orchymyn atafaelu a gwerthu asedau. Rhagwelwn y byddai'r grym hwn yn caniatáu atafaelu eiddo, ni waeth os byddai'n gysylltiedig â'r troedd ai peidio. Gallai effaith gosbol atafaelu hyd yn oed gwerth bychan o asedau fod yn sylweddol, a gallai troeddwy'r ystyried hynny'n fwy cosbol na chosb ariannol gyfwerth.

70. Ein barn yw y byddai'r grym hwn yn fwyaf priodol i'w ddefnyddio mewn achosion sy'n ddigon difrifol i fod wedi croesi trothwy gorchymyn cymunedol – efallai hyd yn oed ar gyfer y rhai sydd yn agos iawn i'r trothwy carcharu – yn hytrach nac mewn achosion llai difrifol fel dewis arall yn lle dirwy. Yr ydym o'r farn, pe cyflwynid grym o'r fath, y gellid ei ddefnyddio fel sancsiwn cosbol ochr yn ochr â gorchymyn cymunedol.
71. Cyn y gallem gyflwyno grym o'r fath, byddai angen i ni fod yn fodlon ei fod yn ymarferol ac yn fforddiadwy. Byddem yn croesawu barn ynghylch a oes mathau penodol o droseddau neu droseddwr y gallai grym o'r fath fod yn arbennig o briodol ar eu cyfer. Byddem hefyd yn croesawu barn ynghylch sut y gallai'r llysoedd sicrhau y byddai gwerth yr asedau a atafaelir yn deg i droseddwr sydd â lefelau isel ac uchel o asedau.
72. Unwaith y byddai gorchymyn atafaelu eiddo wedi'i roi, rhagwelwn y byddai'n cael ei weithredu gan feiliaid yn gweithredu ar ran y llys. Cynigiwn y dylai gwerth gorchymyn gynnwys costau'r beiliaid: mewn geiriau eraill, byddai'r llysoedd yn seilio gwerth gorchymyn ar isafswm i gynnwys ffioedd y beiliaid ac yna'n ei gynyddu fel bo angen er mwyn addasu ar gyfer y gwahaniaeth yng ngwerth eiddo troseddwr. Byddai cadw defnydd y grym hwn ar gyfer troseddau'n dynesu at y trothwy carcharu yn ei atal rhag cael ei ddefnyddio mewn achosion llai difrifol, lle y byddai gorchymyn gwerth uchel o gannoedd neu filoedd o bunnoedd yn anghymesur â difrifoldeb y trosedd.
73. Rhagwelwn y byddai beiliaid yn gweithredu ar reolau tebyg i'r rhai ar gyfer gorfodi gwarantau atafaelu: er enghraifft, heb allu atafaelu eitemau teuluoedd neu gyfarpar gwaith, ac yn gorfod cadw'r eiddo am gyfnod penodol o amser cyn ei werthu.
74. Byddem hefyd yn croesawu barn ar beth fyddai'n gosb briodol am dorri amodau (er enghraifft, mewn achosion lle y mae troseddwr yn cael gwared â nwyddau yn dilyn eu dedfrydu neu yn ceisio osgoi'r beiliaid mewn rhyw ffordd arall. Byddwn yn gwneud gwaith pellach gydol yr ymgynghoriad er mwyn deall costau cyflwyno atafaelu asedau, gan edrych ar y cyd â dedfrydwr sut y gellid ei ddefnyddio a beth yw risgiau gwneud hynny.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 15) Ar ba droseddwr neu droseddau y gallai grym newydd i orchymyn atafaelu asedau ganolbwyntio'n fwyaf defnyddiol?
- 16) Sut y gellir llunio'r grym i orchymyn atafaelu asedau er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol yn yr un modd i droseddwr ag asedau o werth isel a'r troseddwr hynny sydd ag asedau o werth uchel?
- 17) Pa amddiffyniadau a darpariaethau fyddai eu hangen ar rym atafaelu asedau er mwyn ymdrin â hawliau eiddo trydydd parti?
- 18) Beth fyddai'n gosb briodol ar gyfer torri amodau gorchymyn atafaelu asedau?

Hyrwyddo mwy o gydymffurfio â gorchmynion cymunedol

75. Oni bai eu bod yn cael eu terfynu'n gynnar oherwydd cynnydd da, rhaid i orchmynion cymunedol redeg am y cyfnod llawn os ydynt am gyflawni eu bwriad o adsefydlu a chosbi troseddwy. Ar hyn o bryd oddeutu dwy ran o dair sy'n rhedeg am eu cyfnod llawn neu yn cael eu terfynu'n gynnar oherwydd cynnydd da. Mewn achosion eraill bydd troseddwy yn cael eu dychwelyd i'r llys ar gyfer camau tor-amod. Mae angen i droseddwy ddeall os methant â chydymffurfio â'u dedfryd yr ymdrinnir yn briodol â hynny.
76. Ceir darpariaethau yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy a luniwyd i wella'r trefniadau yn dilyn torri amodau, drwy roi ystod ehangach o opsiynau i lysoedd. Mae hyn yn cynnwys dedfryd o hyd at £2,500 fel cosb am dorri amod a mwy o ryddid i lysoedd weithredu er budd cwblhau'r ddedfryd a lleihad mewn aildroseddu.
77. Ond rydym eisiau ystyried beth mwy y gallwn ei wneud fel bod rheolwyr troseddwy yn cael grym i annog cydymffurfio a delio â thorri amodau. Ar hyn o bryd, yn wyneb methiant afresymol i gydymffurfio â gorchmyn, does gan reolwr troseddwy ond dau ddewis – cyflwyno rhybudd neu ddychwelyd y troseddwr i'r llys ar gyfer achos tor-amod. Gall y dewis olaf gymryd amser ac mae'n defnyddio amser gwerthfawr y llys ac adnoddau rheolwyr troseddwy.
78. Rydym felly'n cynnig creu opsiwn newydd ar gyfer rheolwyr troseddwy, sef rhoi cosb ariannol, heb ddychwelyd i'r llys. Byddai hyn yn gweithio mewn ffordd debyg iawn i gynlluniau cosbau penodedig. Byddai'r troseddwy yn cael cyfnod penodol o amser i dalu'r gosb neu gael gwrandawriad yn y llys am y tor-amod. Pe na byddai penderfyniad wedi'i wneud a'r gosb heb ei thalu, byddai'r achos tor-amod yn mynd yn ei flaen. Dim ond ar un achlysur y byddai'r gosb ariannol ar gael – byddai methiant i gydymffurfio heb esgus ar ôl hynny yn golygu mynd â'r troseddwr i'r llys
79. Rydym yn edrych ar nifer o faterion ymarferol a fyddai'n gysylltiedig â sefydlu cynllun cosb benodedig. Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau ar gyfer casglu'r arian, a fyddai'n daladwy i'r Trysorlys, a gweinyddiaeth gyffredinol y cynllun. Er mwyn i'r trefniadau newydd hyn gyflwyno gwerth am arian, byddai'n rhaid i unrhyw gostau ychwanegol gael eu cydbwysu gan gynnydd o ran cydymffurfio, gyda llai o wrandawiadau llys a llai o ddedfrydau hwy yn cael eu rhoi am dorri amodau. Rhaid i ni osgoi mesurau cynhwysfawr yn y fan hyn sydd â'r perygl o gynyddu dyledion GLITEM a chostau achosion torri amodau.
80. Byddem yn croesawu barn ynghylch a fyddai cynllun o'r fath yn helpu rheolwyr troseddwy - un ai'r gwasanaeth prawf neu gontractwyr sector preifat - i sicrhau mwy o gydymffurfio â gorchmynion cymunedol ac i ymdrin yn briodol â thorri amodau. Byddwn yn sicrhau bod y cynnig hwn

yn gyson â chynigion ar gyfer cadw penderfyniadau o ddiddordeb i'r cyhoedd o fewn y sector cyhoeddus fel yr amlinellwyd yn yr adolygiad prawf.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 19) Sut y gellir gwella cydymffurfio â dedfrydau cymunedol?
- 20) A fyddai cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig ar gyfer ymdrin â methu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol yn debygol o hyrwyddo mwy o gydymffurfio?
- 21) A fyddai cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig ar gyfer ymdrin â methu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol yn briodol ar gyfer gweinyddu gan reolwyr troseddwr?
- 22) Pa faterion ymarferol y mae angen i ni eu hystyried ymhellach yng nghyswllt cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig i ymdrin â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol?

Dirwyon mwy effeithiol

81. Gall dirwyon fod yn gosb hynod effeithiol ar gyfer troseddau llai difrifol. Drwy gyfateb mathau tebyg o droseddwr, nid oes unrhyw dystiolaeth bod gwahaniaeth yng nghyfraddau aildroseddu troseddwr sy'n derbyn dirwyon a throseddwr sy'n derbyn gorchymynion cymunedol. Nid oes unrhyw reswm, felly, na ddylid defnyddio dirwyon fel ffordd o ddangos yn glir i droseddwr bod ei ymddygiad yn anghywir a thrwy hynny ei annog i wynebu canlyniadau ei weithredoedd.
82. Fodd bynnag, er mwyn rhwystro a chosbi'n effeithiol, mae angen gosod dirwyon ar y lefel gywir mewn perthynas ag incwm. Os gosodir hwy'n rhy isel fel nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar droseddwr, yna ni fydd y troseddwr yn teimlo ei fod wedi'i gosbi; os gosodir hwy ar lefel afresymol o uchel yna gallai troseddwr o ddifrif fethu â thalu a gallai cosb heb fod yn un ariannol fod yn fwy priodol. Mae troseddwr nad yw'n gallu ad-dalu ei ddyled yn un anodd iawn ei ddiwygio.
83. Mae mwyafrif helaeth y troseddwr a ddaw gerbron y llysoedd yn derbyn dirwy. Yn 2010, roedd 65% o'r holl ddedfrydau a roddwyd yn ddirwyon. Fodd bynnag, fel cyfran o'r holl ddedfrydau mae'r defnydd o'r ddirwy wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Yn 2000, roedd 69% o'r holl ddedfrydau a roddwyd gan y llysoedd yn ddirwyon.
84. Gall y gostyngiad hwn fod yn gysylltiedig ag argaeledd y gorchymyn cymunedol a'r ddedfryd ohiriedig newydd o 2005 ymlaen. Wrth i'r defnydd o'r ddirwy ostwng dros y deng mlynedd diwethaf, felly hefyd y mae'r

defnydd o orchmynion cymunedol a dedfrydau gohiriedig wedi cynyddu. Ymddengys yn debygol bod rhai troseddau a fyddai yn y gorffennol wedi derbyn dirwyon uchel, yn cael dedfrydau eraill yn lle hynny.

85. Mae rhai dedfrydwyr hefyd â diffyg hyder y bydd dirwyon yn cael eu gorfodi. Nid yw'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu realiti gweithgarwch gorfodi, sydd wedi gwella'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, y mae'n bosibl bod yr argraff hon wedi cyfrannu at amharodrwydd i ddefnyddio dirwyon mewn rhai achosion penodol.
86. Yn *Torri'r Cylch*, dywedasom ein bod eisiau gweld mwy o ddefnydd a defnydd mwy hyblyg o gosbau ariannol i gosbi troseddwyr. Mae'r adran hon yn gofyn am farn ynghylch sut y gellid defnyddio dirwyon yn fwy creadigol yn lle ochr yn ochr â gorchmynion cymunedol. Mae hefyd yn gofyn am farn ar sut y gallwn wella'r wybodaeth sydd ar gael i lysoedd i osod dirwyon ar lefel gymesur a theg sy'n effeithiol o ran cosbi troseddwyr. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn cyflawni gwelliannau pellach o ran gorfodi dirwyon, sy'n hanfodol os yw dedfrydwyr i gael hyder yn effeithlonrwydd y dedfrydau hyn.

Defnyddio dirwyon yn fwy hyblyg

87. Ni ddylid ystyried dirwyon fel cosb sy'n addas ar gyfer troseddwyr ar y lefel isaf yn unig. Ar gyfer troseddau sy'n ddigon difrifol i groesi'r trothwy cymunedol, a lle bo'r amgylchiadau'n galw am ofynion adsefydlu sy'n amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â chosbi, mae'n amlwg mai gorchymyn cymunedol fydd y ddedfryd briodol. Fodd bynnag, lle mai prif bwrpas y ddedfryd yw cosb, ac y byddai dirwy yn ymateb cymesur a synhwyrol i'r ymddygiad troseddol, credwn nad oes unrhyw reswm pam na ddylai llysoedd ystyried rhoi dirwy o werth uchel yn hytrach na gorchymyn cymunedol.
88. Mae'r trothwyon gorchmynion cymunedol a charcharu eisoes yn caniatáu i lysoedd ddedfrydu yn y modd hwn. Nid yw'r ffaith bod trosedd wedi croesi'r trothwy cymunedol yn atal llys rhag rhoi dirwy. Mae dau fand dirwy eithriadol, D ac E, eisoes yn bodoli yng nghanllawiau dedfrydu llysoedd ynadon i'w defnyddio mewn achosion lle y mae'r llys o'r farn y gellid cyfiawnhau gorchymyn cymunedol neu ddedfryd o garchar, ond oherwydd amgylchiadau'r achos, y byddai dirwy yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw llysoedd bob amser yn cadw'r bandiau dirwy ychwanegol hyn mewn cof wrth bennu dedfrydau ar gyfer troseddwyr ar y lefel hon.
89. Hefyd does dim yn y gyfraith i atal llys rhag rhoi dirwy ochr yn ochr â dedfryd gymunedol (cyn belled â bod y ddedfryd gyfan yn parhau'n gymesur â'r trosedd). Yn ymarferol, fodd bynnag, anaml iawn y digwydd hyn. Caiff bron pob dirwy ei rhoi fel dedfryd ar ei phen ei hun: yn 2010 dim ond 493 o ddirwyon a roddwyd ochr yn ochr â gorchmynion cymunedol. Ar gyfer rhai troseddwyr, gallai dirwy fod yn sancsiwn cosbol mwy effeithiol na gofyniad cyrffw neu ofyniad Gwneud lawn â'r Gymuned, gan

adael disgrisiwn i'r llys osod gorchymyn cymunedol adferol neu i adsefydlu, ochr yn ochr â hi.

90. Rydym yn dymuno archwilio beth mwy y gellir ei wneud o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol i annog llysoedd i wneud defnydd mwy hyblyg o ddirwyon. Mae un posibilrwydd yn ymwneud â'r cyngor a roddir i lysoedd mewn adroddiadau cyn-dedfrydu. Mae'r rhain yn cynorthwyo llysoedd i bennu'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin â throeddwr. Bydd y rhai sy'n ysgrifennu adroddiadau mewn sefyllfa dda i gynghori llysoedd ai dirwy ynteu ryddhad wedi'i gyfuno â gorchmynion ategol fyddai'r ddedfryd fwyaf effeithiol ar gyfer rhai troeddau sydd wedi croesi'r trothwy cymunedol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o un Ymddiriedolaeth Prawf wedi dangos nad yw'r rhai sy'n ysgrifennu adroddiadau wedi bod yn ymwybodol bob amser o'r opsiynau eraill sydd ar gael i lysoedd y tu hwnt i orchymyn cymunedol. Byddem yn croesawu barn ar ba gefnogaeth y gellir ei rhoi i awduron adroddiadau i dynnu sylw llysoedd at achosion lle y gallai dirwyon neu orchmynion ategol fod yn briodol.
91. Rydym hefyd eisiau edrych sut y mae'r dewis o ddedfrydau sydd ar gael i'r llysoedd wedi'u gosod allan mewn canllawiau dedfrydu. Mae'r trothwy cymunedol ar hyn o bryd yn 'unffordd': chaiff llysoedd ddim rhoi ond gorchymyn cymunedol os yw difrifoldeb troedd wedi croesi'r trothwy, ond nid yw'r ffaith bod troedd wedi croesi'r trothwy yn rhwystro llysoedd rhag rhoi dirwy. Er gwaethaf hyn, gallai strwythur presennol canllawiau dedfrydu roi'r argraff bod dirwyon yn gorwedd dan orchmynion cymunedol o ran difrifoldeb, fel rhan o ysgol o ddedfrydau yn ymestyn o ryddhad i garcharu. Er enghraifft, nid yw canllawiau troeddau ar hyn o bryd yn tynnu sylw llysoedd at fandiau dirwyon eithriadol D ac E.
92. Byddwn yn gofyn i'r Cyngor Dedfrydu ystyried a oes ffyrdd i wneud yr hyblygrwydd o fewn deddfwriaeth dirwyon yn fwy eglur mewn canllawiau dedfrydu. Byddem hefyd yn croesawu barn ynghylch a oes ffyrdd eraill o annog defnydd mwy effeithiol o ddirwyon ochr yn ochr, neu yn lle, gorchmynion cymunedol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 23) Sut y gellir cefnogi awduron adroddiadau cyn-dedfrydu i gynghori llysoedd ar y defnydd o ddirwyon a dedfrydau eraill nad ydynt yn orchmynion cymunedol?
- 24) Sut arall y gellir annog llysoedd i wneud defnydd mwy hyblyg o ddirwyon ochr yn ochr, neu yn lle, gorchmynion cymunedol?

Gwell gwybodaeth am fodd ariannol troeddwr

93. Fel gydag unrhyw ddedfryd, rhaid gosod gwerth dirwy ar lefel sy'n gymesur â difrifoldeb y troedd. Fodd bynnag, rhaid i ddirwyon hefyd gael eu pennu gan ystyried amgylchiadau ariannol y troeddwr.

94. Mae hyn yn sicrhau bod y gosb yn deg a bod effaith gymharol y ddirwy ar bob troseddwr yr un fath o ran sylwedd waeth beth fo modd y troseddwr. Nid yw dirwy fechan yn broblem o gwbl i droseddwr cyfoethog. O'r herwydd, mae gwybodaeth gywir am fodd troseddwr yn hanfodol wrth bennu dirwyon sydd yn ddigon cosbol a hefyd yn rhai y gellir eu gorfodi.
95. Ar hyn o bryd, mewn achosion lle y gall y canlyniad terfynol fod yn ddirwy, mae'n ofynnol i ddiffynyddion lenwi ffurflen sy'n rhoi gwybodaeth am eu modd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol ac adrannau ar gyfer incwm a gwariant wythnosol neu fisol. Bydd llysoedd yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu'r hyn y cyfeirir ato fel 'incwm wythnosol perthnasol' – incwm wedi tynnu didyniadau treth ac yswiriant gwladol, a ddefnyddir wedyn fel rhan o'r broses o bennu gwerth dirwy. Yn y llysoedd ynadon, bydd dedfrydwyr yn dilyn canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt osod trosedd ar un o dri band (A, B neu C) yn dibynnu ar ddifrifoldeb. Mae gan bob band bwynt cychwynnol ac ystod yn seiliedig ar gyfran o incwm wythnosol perthnasol. Bydd llysoedd yn addasu'r ddedfryd o fyny neu i lawr yr ystod hon, yn dibynnu ar unrhyw ffactorau gwaethyngol neu liniarol sy'n benodol i'r trosedd. Mae'r bandiau hyn bellach wedi cael eu cynnwys hefyd yn y canllawiau dedfrydu i Lys y Goron.

Man cychwyn		Ystod
Dirwy Band A	50% o incwm wythnosol perthnasol	25% - 75% o incwm wythnosol perthnasol
Dirwy Band B	100% o incwm wythnosol perthnasol	75% - 125% o incwm wythnosol perthnasol
Dirwy Band C	150% o incwm wythnosol perthnasol	125% - 175% o incwm wythnosol perthnasol

96. Mae'r dull hwn o weithredu'n dibynnu ar droseddwr unigol yn darparu gwybodaeth gywir am eu modd i'r llysoedd. Heb yr wybodaeth hon, rhaid i lysoedd wneud tybiaethau ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ger eu bron. Yn benodol, yn absenoldeb unrhyw wybodaeth arall, bydd llysoedd yn tybio incwm wythnosol perthnasol o £400 (mae hyn yn seiliedig ar incwm canolrifol cenedlaethol cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol). Lle bo unig incwm troseddwr yn dod drwy fudd-daliadau'r wladwriaeth, cymerir bod yr incwm wythnosol perthnasol yn £110.
97. Lle bo'r troseddwr yn cuddio'r gwir am ei fodd ac nad oes gan y llys dystiolaeth gyflawn ar fodd ger eu bron, y canlyniad fydd dirwy nad yw'n un deg. Er enghraifft, gallai troseddwr cyfoethocach dderbyn dirwyon sy'n effeithio'n llai difrifol ar eu hincwm na'r rhai a roddir i droseddwr eraill. Gallai troseddwr ar fudd-daliadau neu fel arall yn derbyn incwm isel dderbyn dirwyon sy'n cosbi'n ormodol ac yn amhosibl eu casglu.
98. Bwriadwn wneud mwy i wella'r wybodaeth ar fodd sydd ar gael i lysoedd wrth bennu dirwyon. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn targedu dirwyon a mesurau gorfodi'n effeithiol. Ar hyn o bryd nid oes gan lysoedd fynediad at

wybodaeth treth am droseddwr a allai helpu llysoedd i asesu amgylchiadau ariannol unigolyn lle nad oes gwybodaeth arall ar gael. Er bod gan lysoedd fynediad at wybodaeth am fudd-daliadau y gall troseddwr fod yn eu derbyn, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ond pan fydd troseddwr yn peidio â thalu dirwy, ac nid cyn hynny. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM i archwilio'r sgôp ar gyfer rhannu data'n fwy effeithlon rhwng asiantaethau'r adrannau yn gynnar yn y broses cyfiawnder troseddol.

99. Rydym hefyd yn defnyddio dulliau ymddygiadol i edrych ar ddylanwadau a chymhellion eraill i annog troseddwr i dalu'u dyledion yn brydlon.

Astudiaeth achos: negeseuon testun personol i rai nad ydynt yn talu dirwyon

Mae GLITEM wedi cynnal cynllun peilot yn cynnwys 350 o negeseuon testun personol a anfonwyd i rai nad oeddynt yn talu dirwyon. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran cyfraddau ymateb ac ad-dalu gan y bobl hyn a dderbyniodd neges destun a oedd yn dechrau gyda'u henw cyntaf, o'i gymharu â'r neges safonol. Mae hyn bellach yn cael ei dreialu'n ehangach gyda thair sir yn Ne Ddwyrain Lloegr. Mae negeseuon testun yn cael eu hanfon at bobl sydd wedi methu â thalu'u dirwy er mwyn rhoi un cyfle olaf iddynt dalu cyn codi gwarant atafaelu i'w gweithredu gan feil'iaid. O fis Ionawr 2012, bydd y negeseuon testun i'w hanfon allan bob wythnos yn cael eu dewis ar hap o blith pump o wahanol negeseuon, gan gynnwys testun safonol heb unrhyw bersonoli, i negeseuon yn cynnwys enw'r troseddwr, y swm dyledus, neu'r ddau. Bydd yr ymatebion i'r gwahanol negeseuon yn cael eu monitro i bennu effaith personoli ar y gyfradd ymateb, yr amser hyd at dalu a maint y taliad a wneir.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 25) Sut allwn ni ysgogi troseddwr yn well i roi gwybodaeth gywir am eu hamgylchiadau ariannol i'r llysoedd mewn modd amserol?

Gosod gwerth dirwyon yn gywir

100. Mae dirwyon wedi mynd yn uwch ac yn fwy cosbol dros y degawd diwethaf. Gwerth cymedrig dirwyon a roddwyd yn 2010 oedd £223: cynnydd o 29% mewn termau real ers 2000. Bu hefyd gynnydd o 44% mewn termau real yng ngerwerth canolrifol dirwyon, a oedd yn £175 yn 2010. Mae'r ffaith bod gwerthoedd canolrifol a chymedrig wedi cynyddu'n awgrymu nad yw'r cynnydd hwn wedi'i gyfyngu i ddirwyon uchel iawn neu isel iawn o ran gwerth.

101. Dan yr wyneb, fodd bynnag, mae'r darlun yn amrywio yn ôl categori'r trosedd. Ar gyfer troseddau'r naill ffordd neu'r llall neu droseddau ditiadwy yn unig sy'n derbyn dirwyon, bu cynnydd sylweddol yn y gwerth canolrifol mewn termau real, ond mae'r gwerth cymedrig wedi parhau'n sefydlog. Yn groes i hynny, ar gyfer troseddau ynadol, bu cynnydd mewn termau real yn y gwerthoedd canolrifol a chymedrig. Mae hyn yn awgrymu mai dirwyon yn y llysoedd ynadon sydd wedi gyrru'r cynnydd cyffredinol mewn gwerthoedd cyfartalog. Bu cynnydd penodol yng nghyfran y dirwyon rhwng £100-199, a £500 neu fwy.
102. O ystyried y cynnydd hwn yng ngwerth cyfartalog y rhan fwyaf o ddirwyon, rydym eisiau sicrhau nad yw'r terfynau a osodir o fewn y fframwaith dedfrydu ar hyn o bryd yn atal llysoedd rhag cael yr hyblygrwydd i bennu gwerth dirwyon yn briodol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos dirwyon a roddir am droseddau mwy difrifol, lle bo angen i'r troseddwr deimlo canlyniadau ariannol ei weithredoedd a lle bo angen i'r cyhoedd fod yn hyderus bod lefel briodol o gosb wedi'i rhoi.
103. O ganlyniad rydym wedi cynnwys darpariaethau yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr a fydd yn gwneud dau newid allweddol i'r ffordd y mae dirwyon yn gweithredu, ac a fydd yn effeithio ar y ffordd y pennir gwerth dirwyon. Y ddarpariaeth gyntaf yw cael gwared â'r terfyn uchaf o £5,000 neu fwy ar gyfer dirwyon am droseddau y gellir eu profi'n ddiannod neu neillffordd. Credwn y bydd hyn yn caniatáu i lysoedd osod dirwyon mwy priodol a chymesur am y troseddau mwyaf difrifol a glywir yn y llysoedd ynadon, yn ogystal ag mewn achosion neillffordd a glywir yn Llys y Goron. Bydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i lysoedd osod dirwyon cymesur ar unigolion cyfoethocach neu ar droseddwyr corfforaethol.
104. Ar gyfer dirwyon am droseddau llai difrifol, mae'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr hefyd yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol gynyddu cyfanswm y dirwyon ar gyfer lefelau 1 i 4 ar raddfa safonol dirwyon am droseddau diannod. Bydd y grym hwn yn golygu y gellir gwneud addasiadau i'r raddfa safonol drwy ddeddfwriaeth eilaidd, gan roi mwy o hyblygrwydd i ddiwygio'r uchafswm ar gyfer pob lefel os oes tystiolaeth i awgrymu newidiadau yng nghyfartaledd incwm troseddwyr.

Gorfodaeth effeithiol ac effeithlon

105. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gorfodi dirwyon mewn blynyddoedd diweddar. Ar gyfer y flwyddyn hyd at Fawrth 2011 yr oedd y gyfradd dalu ar gyfer pob cosb ariannol yn ôl gwerth, ac eithrio cansliadau gweinyddol, yn 80%. Mae hwn wedi cynyddu o 71% yn 2008/09. Yn 2010/11, casglodd GLITEM y swm uchaf erioed sef dros £280m o ddirwyon.

Blwyddyn	Cyfradd talu (ac eithrio cansliadau gweinyddol)	Arian a gasglwyd
----------	--	------------------

2008/09	71%	£246,519,704
2009/10	74%	£259,241,082
2010/11	80%	£282,375,257

DS: nid yw'r arian a gasglwyd mewn un flwyddyn ariannol o angenrheidrwydd yn ymwneud â dirwyon ariannol a roddwyd yn yr un flwyddyn ariannol.

106. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u gyrru drwy dargedu adnoddau i orfodi taliadau cyn gynted â phosibl wedi dedfrydu. Mae GLITEM wedi gwneud defnydd cynyddol o'r teleffon a negeseuon testun a phecynnau olrhain gwybodaeth megis Experian. Gwnaed defnydd sylweddol uwch o sancsiynau megis gorchmynion tynnu arian o fudd-daliadau (DBOs) a gorchmynion atafaelu enillion. Codwyd bron i 650,000 DBO yn 2010/11, mwy na dwbl y nifer yn 2008/09. Gyda chyflwyno credyd cynhwysol o 2013 ymlaen, byddwn yn cynyddu'r cyfanswm wythnosol y gellir ei dynnu o fudd-daliadau o £5 i £25.
107. Ar gyfer y rhai sy'n gwrthod talu dirwyon yn fynych, mae GLITEM wedi cynnal ymgyrchoedd talu 'Operation Crackdown' gan dargedu grwpiau penodol o unigolion sydd ddim yn talu, yn aml ar y cyd ag asiantaethau eraill fel yr heddlu. Ym mis Tachwedd 2010, bu i un ymgyrch o'r fath olygu gweithredu 9,701 o warantau atafaelu a 71 o unigolion nad oeddynt yn talu dirwyon yn cael eu carcharu.
108. I adeiladu ar y gwelliannau hyn mae GLITEM yn ymgymryd â rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio pellach drwy archwilio'r potensial i greu partneriaeth gyda chwmni masnachol i adeiladu ar y gwelliannau a wnaed gennym eisoes.
109. Byddai partneriaeth yn dod â'r buddsoddiad a'r dechnoleg sydd ei hangen er mwyn i GLITEM gyflawni ei ddyheadau o ran gwasanaethau cydymffurfio a gorfodaeth yn y dyfodol. Bydd yn galluogi gwneud llawer o'r prosesau gweinyddol yn rhai awtomatig, ac yn ei dro yn lleihau cost gorfodi dirwyon a chynyddu swm y dirwyon a gaiff eu talu. Bydd hyn yn rhyddhau amser staff i fod yn fwy rhagweithiol o ran mynd ar ôl troseddwy'r i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u gorchymyn llys.

2. Gwneud iawn ac adfer

110. Ni all cosb ynddi'i hun adfer y niwed a achosir i ddioddefwyr a chymunedau gan droseddau. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, rhaid i ddedfrydau a fwirir yn y gymuned nid yn unig gosbi a diwygio troseddwyr, ond hefyd sicrhau lle bynnag y bo'n bosibl, bod troseddwyr yn gwneud iawn â'r gymdeithas am y niwed a achoswyd ganddynt. Gellir gwneud iawn drwy dalu'n ôl i gymdeithas yn gyffredinol – er enghraifft, cynllun Gwneud iawn â'r Gymuned sy'n galluogi troseddwyr i wneud cyfraniad i'w cymuned leol, neu wneud cyfraniadau ariannol i gefnogi gwasanaethau i ddioddefwyr. Gall hefyd gynnwys dioddefwyr yn uniongyrchol, er enghraifft drwy i droseddwyr dalu iawndal ariannol i ddioddefwyr am y golled neu'r niwed a achoswyd ganddynt.
111. Mae dioddefwyr a chymunedau hefyd eisiau i droseddwyr wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Drwy brosesau adfer, gall dioddefwyr a throeddwyr ddod ynghyd i ddatrys gyda'i gilydd sut orau i ymdrin â throedd. Efallai mai gwneud iawn fydd canlyniad y broses hon, ond efallai hefyd y bydd yn cynnwys ystod o ganlyniadau eraill gan gynnwys y troseddwr yn derbyn cyfrifoldeb am ei drosedd, gan roi cyfle i'r dioddefwr ddweud ei ddweud a chynorthwyo'r dioddefwr i symud ymlaen yn dilyn y trosedd a gyflawnwyd yn ei erbyn.
112. Yn *Torri'r Cylch*, nodwyd ein bwriad i gyflwyno dull mwy adferol a gwneud iawn o ran dedfrydu troseddwyr. Bu i ni amlinellu cynigion ar Dalu'n ôl i'r Gymuned i sicrhau ein bod yn creu cynllun a gaiff ei orfodi'n drwyadl a chywir. Drwy Dalu'n ôl i'r Gymuned bydd troseddwr yn cwblhau gwaith di-dâl megis dod ag adeiladau adfeiliedig yn ôl i ddefnydd cyhoeddus. Mae'n chwarae rhan bwysig o ran cosbi troseddwr ond hefyd yn sicrhau bod y troseddwr yn gwneud iawn i gymdeithas. Rydym hefyd yn nodi ein bwriad i sicrhau bod mwy o droseddwyr yn gwneud cyfraniadau ariannol i ddioddefwyr. Bydd darpariaethau yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr yn creu dyletswydd gadarnhaol ar lysoedd i ystyried gwneud gorchymyn iawndal ym mhob achos lle y mae niwed, difrod neu golled wedi ei achosi i ddioddefwr a nodwyd. Yn ogystal, mae'r Strategaeth Dioddefwyr *Getting it right for Victims and Witnesses* yn cynnig cynyddu'r Gordal Dioddefwyr ac ymestyn ei ddefnydd i ystod ehangach o ddedfrydau.
113. Yn olaf, mae *Torri'r Cylch* yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu'r defnydd o arferion cyfiawnder adferol. Rydym yn anelu at gynyddu darparu cyfiawnder adferol a lefel a safon ymarfer darparu i sicrhau bod prosesau adferol yn effeithiol.
114. Mae'r adran hon yn adeiladu ar y nodau hynny, ac yn ceisio barn ar sut y gallwn sicrhau bod y fframwaith dedfrydau cymunedol yn galluogi'r llysoedd i fynnu bod troseddwyr yn gwneud iawn â'r gymdeithas am y niwed a achoswyd ganddynt. Dim ond drwy hyn y gall dedfrydau yn y

gymuned fynd i'r afael â'r niwed uniongyrchol a mwy hirdymor y mae troseddau'n eu hachosi i ddiodefwyr ac i gymdeithas.

Cyfiawnder adferol

115. Mae Cyfiawnder adferol (RJ) yn cynnig cyfle unigryw i roi siawns i ddiodefwyr trosedd gael eu clywed a chael mwy o ran yn y modd y caiff troseddau eu datrys ac yn y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Gallai hyn gynnwys cytuno ar weithgarwch adferol i'r troseddwr ymgymryd ag ef megis gwneud iawn mewn rhyw fodd i'r diodefwr, yn ariannol neu fel arall, neu gwrdd â'r troseddwr wyneb yn wyneb i drafod y trosedd, gan roi cyfle i'r diodefwr egluro i'r troseddwr pa niwed a achoswyd ganddo.
116. Mae RJ hefyd yn arf hanfodol o ran adsefydlu troseddwr ac atal mwy o droseddu. Ond nid yw'n opsiwn hawdd – rhaid i droseddwr wynebu'n uniongyrchol ganlyniadau eu gweithredoedd a'r effaith a gawsant ar eraill. Rhaid iddynt geisio gwneud iawn am y difrod a achoswyd ganddynt ac y mae felly'n eu herio i newid eu hymddygiad o ganlyniad.
117. Y mae ein tystiolaeth ni ein hunain yn dangos effeithlonrwydd arferion cyfiawnder adferol, yn benodol ei effaith ar ddiodefwyr (85% o ddiodefwyr yn fodlon ar RJ), yn ogystal â'i effaith ar aildroseddu (gostyngiad o 14% yn amllder aildroseddu). Y mae ymarferwyr yn adrodd yr un canlyniadau cadarnhaol a dywedant wrthym hefyd ei bod yn broses hanfodol o ran darparu cymhelliant i droseddwr newid a cheisio ymyriadau eraill i'w galluogi i wneud hynny. Mae heddluoedd hefyd yn dweud wrthym ei bod yn ffordd arbennig o effeithiol o ymdrin â throseddau lefel isel, sy'n aml yn droseddau cyntaf – lle mae'r troseddwr a'r diodefwr yn cytuno ar ad-daliad priodol am y difrod a achoswyd, yn hytrach na chyflwyno rhybudd neu ddirwy lefel isel, nad yw o fudd uniongyrchol i'r diodefwr. Mae dros 18,000 o swyddogion heddlu wedi'u hyfforddi mewn arferion adferol ledled Cymru a Lloegr, ac yn eu defnyddio yn y modd hwn, neu yn ogystal â dedfrydau troseddol.
118. Mae'r arferion mwyaf arloesol ac effeithiol ar gyfer RJ wedi tyfu o gynlluniau a ddatblygwyd ac a yrrwyd yn lleol, sy'n ymateb i anghenion diodefwyr, cymunedau ac ymarferwyr yn eu hardal. Credwn mai dyma'r dull gorau, ac felly, er ein bod yn ymroddedig i wneud mwy o ddefnydd o RJ, nid ydym eisiau gwneud hynny mewn ffordd sy'n rhy gyfarwyddol neu'n rhoi cyfyngiadau neu bwysau diangen ar y system. Rydym eisiau i ardaloedd lleol gadw'r disgresiwn ynghylch sut orau i ddefnyddio prosesau adferol yn fwyaf effeithiol ac effeithlon yn ôl amgylchiadau lleol a chyllidebau lleol.
119. Rydym yn canolbwyntio felly ar weithredu i gefnogi a galluogi darparu cyfiawnder adferol mewn mwy o ardaloedd, ac mewn mwy o amgylchiadau ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr ac y mae gwaith eisoes ar y gweill.

120. Rydym yn gweithio gyda nifer o ardaloedd lleol i ddatblygu Paneli Cyfiawnder Cymdogol, sy'n dwyn ynghyd y troseddwr, y dioddefwr a chynrychiolwyr y gymuned i ymateb i droseddau lefel-isel drwy ddefnyddio cyfiawnder adferol a phrosesau adferol eraill. Gan adeiladu ar arloesedd rhagorol yng Ngwlad yr Haf, Sheffield a Norfolk, byddwn yn profi paneli dros y misoedd i ddod. Byddwn yn gwerthuso'u gwaith i asesu a ydynt yn effeithiol o ran lleihau aildroseddu ond hefyd i gael gwell dealltwriaeth o ba effaith a gânt ar fodlonrwydd dioddefwyr a hyder y cyhoedd yn y system. Byddwn yn darparu manylion pellach ar y cynlluniau peilot hyn yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Cyfiawnder Troseddol sydd ar fin ymddangos.
121. Byddwn hefyd yn cynhyrchu canllawiau newydd i ardaloedd ar ddefnyddio RJ yn ogystal â datrysiadau y tu allan i'r llys, neu fel rhan ohonynt. Anelir at gynyddu eglurder ynghylch pa bryd y mae'n briodol ymgymryd â gweithgarwch adferol – fel rhan o'r ymateb anffurfiol a'r ymateb ffurfiol i droseddu - a gwella ansawdd ei gyflwyno, gan ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer dioddefwyr o ran mynd i'r afael â throseddau lefel is.
122. Mae gwneud iawn ac adfer yn rhannau allweddol o'r system cyfiawnder ieuencid. Mae'r Gorchymyn Atgyfeirio Ieuencid yn dwyn ynghyd y troseddwr, eu teulu a'r dioddefwr (lle bo'n bosibl) gerbron panel o wirfoddolwyr cymunedol i gytuno ar y cyd ar gontract gweithredu sy'n darparu iawn am y trosedd a gyflawnwyd ac yn anelu at atal y person ifanc rhag aildroseddu yn y dyfodol. Drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, rydym yn darparu gwerth £600,000 o hyfforddiant pellach i'r rhai sy'n ymwneud â'r paneli er mwyn gwreiddio dulliau adferol fel rhan o'u gwaith.

Cyfiawnder adferol yn dilyn dedfryd

123. Mae capasiti'r system yn y cam wedi dedfryd yn parhau'n gyfyng, er gwaethaf galwadau iddo fod ar gael fel rhan o ddedfrydau cymunedol a charcharu, neu yn ychwanegol atynt. Rydym wedi dechrau cymryd camau cadarnhaol yn y maes hwn. Drwy'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr rydym yn darparu £1.3m i adeiladu capasiti a gallu RJ yn y gymuned ac yn y ddalfa. Darperir £1m o'r cyllid (a ariennir ar y cyd gan y Monument Trust) i Restorative Solutions CIC i greu a darparu hyfforddiant ar gyfer staff prawf a staff carchardai i: ddod yn hwyluswyr cyfiawnder adferol; ddarparu cyrsiau 'hyfforddi'r hyfforddwr'; a chynghor a chefnogaeth ddilynol ar ôl rhoi'r dulliau adferol ar waith. Bydd y cyllid hwn yn darparu hyfforddiant i dros 100 o staff prawf a charchardai, a fydd yn rhoi hwb mawr i'r ddarpariaeth yn y system ac yn ein helpu i sefydlu RJ fel rhan fwy cyffredin o orchmynion cymunedol.
124. Fodd bynnag, heb safonau ymarfer da, ni all hyn fod yn effeithiol nac ennill hyder dioddefwyr, y cyhoedd nac ymarferwyr chwaith o ran defnyddio dulliau o'r fath. Y mae'r £130,000 o gyllid ychwanegol felly wedi'i ddyfarnu i 'Thames Valley Partnership - Restorative Justice Services' i ddatblygu a sefydlu templedi arfer gorau ar gyfer cyflwyno,

gweithredu a darparu cynadledda wyneb yn wyneb ar draws gwasanaethau carchardai a phrawf.

Cyfiawnder adferol cyn-dedfrydu

125. Rydym hefyd yn ystyried prosesau cyfiawnder adferol cyn-dedfrydu. Yn wir, ar gyfer troseddau lle y mae'r troseddwr wedi cael ei erlyn a'i gael yn euog, gall y llys oedi dedfrydu os credant y byddai'n ddefnyddiol rhoi amser ychwanegol ar gyfer ymgymryd ag RJ. Gellir defnyddio tystiolaeth o'r fath i oleuo'r penderfyniadau a wneir ganddynt o ran y ddedfryd briodol.
126. Gwyddom fod rhai ardaloedd wedi cael trafferthion ymarferol wrth geisio datblygu prosesau RJ cyn dedfrydu, nid yn lleiaf sefydlu pa ran o'r system cyfiawnder troseddol sy'n gyfrifol am reoli a goruchwyllo'r broses. Mewn amgylchiadau lle y mae'r troseddwr yn debygol o dderbyn dedfryd gymunedol neu garchar, bydd y gwasanaeth prawf yn paratoi adroddiad cyn-dedfrydu a all weithredu fel modd o asesu a hysbysu'r llysoedd o'r posibilrwydd ar gyfer RJ cyn-dedfrydu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol ym mhob achos ac felly mewn amgylchiadau o'r fath mae angen i fecanweithiau lleol eraill fod yn eu lle i alluogi i hyn ddigwydd.
127. Mae materion ymarferol eraill yn bodoli ynghylch prydlondeb llysoedd. Mae'r cyfartaledd amser a gymerir i achos fynd rhagddo o gyhuddo ffurfiol i wrandawriad llys yn 16 diwrnod. Rhaid i'r broses o ystyried prosesau cyn-dedfrydu felly cael eu cydbwysu yn erbyn y flaenoriaeth o ymdrin â throseddau'n effeithlon gyda'r nod o ddarparu cyfiawnder yn gyflymach. Y mae'n hanfodol i brosesau cyn-dedfrydu ennill hyder dedfrydwyr ac osgoi costau ac oedi diangen y gellid ystyried eu bod yn gwrthbwysu'r manteision.
128. Credwn felly, er mwyn i broses o'r fath fod yn llwyddiannus y bydd angen i asiantaethau cyfrifol sefydlu bod amddiffyniadau digonol yn eu lle i sicrhau'r canlynol:
 - Gofal ac amser priodol wedi'u rhoi i sicrhau bod y dioddefwr yn llwyr ddeall y broses a'u bod yn barod i ymgymryd â hi;
 - Bod y troseddwr yn llawn cymhelliant i gymryd rhan am y rhesymau cywir. Mae hyn yn galw nid yn unig am ble o euog ond hefyd eu parodrwydd i wynebu canlyniadau eu gweithredoedd.
 - Sicrhawyd bod darpariaeth yn ei lle i RJ ddigwydd, fel y gellir dychwelyd yr achos i'r llys yn effeithiol ac effeithlon.
129. Mae'n rhaid i ni gael mwy o dystiolaeth ar ddefnydd ac effeithlonrwydd RJ cyn-dedfrydu. Rydym felly'n bwriadu ymgymryd â gwaith gydag un neu fwy o ardaloedd lleol i brofi prosesau RJ cyn-dedfrydu i sefydlu pa bryd y byddai'n briodol, sut y gellid ei gyflawni a sut y mae'n dylanwadu ar farn y llys.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 26) Sut allwn ni sefydlu sail tystiolaeth well ar gyfer RJ cyn-dedfrydu?
- 27) Beth yw manteision a risgiau RJ cyn-dedfrydu?
- 28) Sut allwn ni geisio lliniaru unrhyw risgiau ac uchafu unrhyw fanteision RJ cyn-dedfrydu?

Dioddefwyr

130. Mae darparu gwell canlyniadau i ddiodefwyr, mwy o lais o ran canlyniadau a mwy o ymdeimlad o gyfiawnder yn ganolog i'n dyheadau ar gyfer RJ. Mae'r Strategaeth Dioddefwyr *Getting it right for Victims and Witnesses*, a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr eleni yn nodi'r gwaith ychwanegol y bwriadwn ymgymryd ag ef i ymgysylltu â diodefwyr a gwella'u rolau yn RJ:

- Rydym eisiau diwygio'r Cod Dioddefwyr a fydd yn caniatáu i ni, am y tro cyntaf, roi hawl i ddiodefwyr wneud cais am RJ ac i'w dderbyn lle bynnag y mae ar gael ac adnoddau'n caniatáu.
- Cynigiwn ddiwygio'r llythyr safonol diodefwyr trosedd, a anfonir gan yr heddlu i bob diodefwyr sy'n adrodd ar drosedd, i ddarparu mwy o wybodaeth ar y broses cyfiawnder troseddol. Lle bo darpariaeth RJ yn ei lle, rydym eisiau sicrhau bod pob llythyr yn egluro argaeledd RJ a'i fanteision posibl, gan eu cyfeirio tuag at wasanaethau lleol.
- Gyda chaniatâd y diodefwyr, byddwn yn sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o Ddatganiad Personol Dioddefwyr i helpu i asesu a hysbysu ymarferwyr o'r addasrwydd ar gyfer RJ, yn ogystal â chofnod o unrhyw ganlyniadau RJ o bersbectif y diodefwyr i'w ystyried os bydd yr achos yn symud ymlaen i'r llys ar y pwynt dedfrydu.
- Drwy gynigion i ddiwygio'r fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau diodefwyr a ddatblygir gyda chomisiynwyr lleol rydym eisiau i ardaloedd lleol allu comisiynu gwasanaethau RJ sydd o fudd uniongyrchol iddynt.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 29) A oes mwy y gallwn ei wneud i gryfhau a chefnogi rôl diodefwyr o ran cyfiawnder adferol?
- 30) A oes ymarferion presennol ar gyfer ymgysylltiad diodefwyr ag RJ y gallwn ddysgu oddi wrthynt?

Adeiladu capasiti ar draws y system

131. Mae canolbwyntio ar ddefnyddio a lledaenu arfer gorau eisoes wedi arwain at ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder mewn RJ yn ogystal â Chanllawiau Arfer Gorau'r Cyngor

Cyfiawnder Adferol, y mae llawer o ymarferwyr RJ eisoes yn glynu wrthynt. Darparodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd gyllid i'r Cyngor Cyfiawnder Adferol i dreialu Diploma newydd Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder mewn ymarfer adferol yn ogystal â datblygu cofrestr ymarferwyr. Lanswyd y diploma a'r gofrestr yn ffurfiol ym mis Medi'r llynedd ac maent yn arfau galluogi pwysig i wella safonau ymarfer proffesiynol ym maes RJ.

132. Rydym eisieu parhau i yrru'r newid diwylliant o ddatblygu ymarferion RJ effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym felly'n bwriadu datblygu fframwaith ar gyfer RJ ar draws y system cyfiawnder troseddol yn ddiweddarach eleni i ddarparu arweiniad i ymarferwyr lleol ar sut y gall dulliau gweithredu RJ gael eu datblygu'n effeithiol a pha bryd y byddant yn briodol. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth ac ymarferion presennol sydd eisoes yn eu lle gyda'r nod o ledaenu arfer gorau ar draws y system. . .

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 31) Ai'r rhain yw'r dulliau cywir? Beth yn fwy allwn ni ei wneud i alluogi ardaloedd i adeiladu capasiti a gallu ar gyfer cyfiawnder adferol ar lefel leol?
- 32) Beth yn fwy allwn ni ei wneud i hybu newid diwylliannol ar gyfer RJ?

Rhoi iawndal i ddiodefwr

133. Mae gorchmynion iawndal yn fecanwaith hanfodol er mwyn i droseddwyr unioni o leiaf rywfaint o'r niwed a achoswyd ganddynt. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr wneud iawn ariannol yn uniongyrchol i'w diodefwr, i dalu am y golled, y difrod neu'r anaf a achoswyd ganddynt. Gellir ei rhoi un ai fel dedfryd ohonynt eu hunain neu eu cyfuno â dedfryd arall: yn ymarferol, caiff y rhan fwyaf eu rhoi ochr yn ochr â dedfrydau digarchar, yn hytrach nag ar y cyd â dedfrydau o garchar neu fel dedfrydau ar eu pen eu hunain.
134. Ers iddynt gael eu cyflwyno yn 1972, mae'r gyfran o droseddwyr y'i gwnaed yn ofynnol iddynt dalu iawndal gan y llysoedd wedi amrywio'n sylweddol. Gwelodd yr 1990au ddirywiad graddol yn y defnydd o orchmynion iawndal, ond dros y 10 mlynedd diwethaf mae llysoedd wedi bod yn gwneud mwy o ddefnydd ohonynt eto. Yn 2001, roedd yn ofynnol i 13% o droseddwyr dalu iawndal. Yn 2010 y gyfran gyfatebol oedd 18%.
135. Credwn y dylai fod yn ofynnol i gynifer o droseddwyr â phosibl wneud iawn i ddiodefwr, a bod gorchmynion iawndal yn chwarae rhan allweddol o ran cyflawni'r nod hwn. Rydym eisoes yn deddfu yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr i greu dyletswydd glir a chadarnhaol ar lysoedd i ystyried rhoi gorchmynion iawndal mewn achosion lle y mae diodefwr uniongyrchol wedi'i niweidio. Mae'r adran hon yn nodi cynigion i sicrhau bod diodefwr a chymdeithas yn

gyffredinol yn cael eu gwasanaethu'n gyflawn drwy ddefnydd effeithiol o orchmynion iawndal.

Gorchmynion iawndal a dedfrydau cymunedol

136. Mae'r rhan fwyaf o orchmynion iawndal yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â dedfrydau digarchar. Rhoddwyd 182,151 o orchmynion iawndal gan y llysoedd yn 2010, dwy ran o dair ohonynt ynghlwm ag un ai gorchymyn cymunedol neu ddirwy. Fodd bynnag, wrth ystyried pob dirwy a gorchymyn llys, dim ond lleiafrif o'r cosbau hynny oedd â gorchmynion iawndal ynghlwm. Yn 2010, rhoddwyd gorchymyn iawndal ynghlwm â thraean o orchmynion cymunedol a llai na 10 y cant o ddirwyon.
137. Credwn fod lle i gynyddu'r gyfran o ddedfrydau digarchar sy'n denu gwneud iawn ariannol. Mae gorchmynion iawndal yn eu hanfod yn gwneud iawn yn hytrach na chosbi, ac ni ddylent gyfrif tuag at bwysau 'cosbol' dedfryd (ac eithrio pan nad oes gan droseddwr fodd i dalu iawndal a dirwy). O ganlyniad, ar gyfer gorchmynion cymunedol yn benodol, gallant fod yn ddull effeithiol o ddarparu iawn tra hefyd yn gadael lle i'r llysoedd ddewis gofynion priodol o ran cosbi, amddiffyn neu adsefydlu.
138. Wrth gwrs i mae rhesymau da paham y gallai llysoedd benderfynu peidio â dyfarnu iawndal. Ar gyfer llawer o droseddau, yn enwedig rhai y rhoddir dirwyon amdanynt, fe all nad oes dioddefwr penodol y gellir ei nodi. Efallai nad oes tystiolaeth ar gael i'r llys o'r golled neu'n difrod a achoswyd, neu efallai na fydd dioddefwyr yn dymuno ymestyn eu cysylltiad â'r troseddwr drwy dderbyn taliadau iawndal.
139. Er hynny, credwn y gallai fod peth lle i gynyddu'r defnydd ohonynt mewn rhai sefyllfaoedd o leiaf. Er enghraifft, rhoddir gorchmynion iawndal mewn llai na thraean o droseddau bwrghleriaeth a glywir yn y llysoedd ynadon, ac mewn llai na hanner troseddau difrod troseddol. Hyd yn oed gan wneud cyfrif am y gyfran o'r troseddau hyn sy'n derbyn dedfrydau o garchar ar unwaith, erys niferoedd sylweddol o achosion lle y gallai iawndal fod wedi bod yn briodol.
140. Hoffem weld y ddyletswydd ar lysoedd i ystyried rhoi gorchymyn iawndal yn cael ei chadarnhau drwy gamau ymarferol i sicrhau bod dedfrydwyr yn cael darlun cyn llawned â phosibl o golled neu niwed a achosir i ddioddefwyr, fel y gallant ystyried iawndal ym mhob achos priodol. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd drwy i'r asiantaeth erlyn ddefnyddio cynnwys Datganiad Personol Dioddefwr, neu drwy wybodaeth berthnasol mewn adroddiad cyn-dedfrydu. Byddem yn croesawu barn ar sut y gallwn sicrhau y darperir y wybodaeth gywir i lysoedd i gefnogi dyfarnu iawndal.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

33) Sut allwn ni sicrhau y darperir yr wybodaeth orau bosibl i lysoedd

ynghylch anaf, colled neu ddifrod er mwyn cefnogi penderfyniadau ynghylch a ddylid rhoi gorchymyn iawndal?

Gosod gwerth cywir i orchmynion iawndal

141. Lluniwyd gorchmynion iawndal i'w defnyddio mewn achosion syml, lle y gellir sicrhau lefel yr iawndal yn rhwydd. Maent yn fodd i'r llys fynnu bod troseddwr yn gwneud o leiaf un elfen o iawn am ei drosedd, yn hytrach na bod yn llwybr byr at yr iawndal a allai fod ar gael dan hawliad sifil. O ganlyniad, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ystyried colled y dioddefwr a modd ariannol y troseddwr wrth bennu gwerth gorchymyn iawndal.
142. Ar gyfer rhai dioddefwyr, gall hyn olygu gorchmynion iawndal nad ydynt yn cwrdd yn llawn â chost y niwed a achoswyd iddynt. Mae'n wir mai ychydig o fodd ariannol sydd gan lawer o'r rhai sy'n cyflawni troseddau. O ganlyniad, nid theimlwn y byddai'n ymarferol na realistig newid y gofyniad cyfredol i orchmynion iawndal fod yn gysylltiedig â modd troseddwr (er, fel yn achos dirwyon, byddwn yn gwneud mwy i sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym am fodd troseddwr yn gywir). Fodd bynnag, o fewn y fframwaith statudol cyfredol, hoffem archwilio a oes lle i gynyddu gwerth cyfartalog gorchmynion iawndal ymhellach.
143. Gwerth cymedrig gorchmynion iawndal a roddwyd yn 2010 oedd £306. Mewn termau real, mae'r cyfartaledd hwn wedi parhau'n sefydlog dros y degawd diwethaf. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r cynnydd mewn termau real yng nghyfartaledd gwerth dirwyon dros yr un cyfnod. Fel gyda dirwyon, mae'r cyfartaleddau hyn yn cuddio amrywiadau dan yr wyneb. Yn y llysoedd ynadon, gwerth cymedrig iawndal a ddyfarnwyd yn 2010 (ac eithrio troseddau moduro ynadol) oedd £240. Fodd bynnag, mae bron i chwarter y gorchmynion iawndal a roddir gan ynadon am swm o £1,000 neu fwy. Yn Llys y Goron, mewn cyferbyniad, y gwerth cymedrig oedd £1,454: ond yr oedd bron i ddwy ran o dair o'r holl orchmynion iawndal yn rhai am lai na £100.
144. Ar hyn o bryd, mae ynadon yn derbyn arweiniad ar orchmynion iawndal mewn atodiad i ganllawiau dedfrydu'r llysoedd ynadon. Mae hwn yn crynhoi ar ffurf naratif y ddeddf statud ar orchmynion iawndal, gan gynnwys y gofyniad i ystyried amgylchiadau ariannol troseddwr. Mae hefyd yn crynhoi cyfraith achosion perthnasol, fel y disgwyliad y dylid gosod gorchmynion iawndal fel arfer ar lefel y gellir ei had-dalu o fewn 12 mis. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n nodi methodoleg fanwl na fframwaith ar gyfer cyfrifo gwerth gorchmynion iawndal yn y ffordd y gwneir gyda dirwyon. Byddwn yn gofyn i'r Cyngor Dedfrydu ystyried a oes lle i wneud newidiadau i ganllawiau dedfrydu i gefnogi dull gweithredu mwy cyson o ran pennu gwerth iawndal.
145. Nid oes terfyn i werth y gorchymyn iawndal y gellir ei roddi yn Llys y Goron. Mewn cyferbyniad, mae'r gorchmynion iawndal a ddyfernir yn y llysoedd ynadon ag uchafswm o £5,000 arnynt. Ar gyfer dirwyon, rydym

eisoes yn deddfu i newid yr uchafswm cyfatebol ar gyfer dirwyon Lefel 5 yn y llysoedd ynadon o £5,000 i swm diderfyn. Yn 2010, yr oedd cyfran fechan ond heb fod yn ddibwys o orchmynion iawndal a roddwyd gan ynadon o fewn y cwmpas £4,000 i £5,000. Byddai modd deddfu i gael gwared â'r uchafswm o £5,000, i ddod â gorchmynion iawndal yn unol â'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud i ddirwyon. Byddem yn croesawu barn ynghylch a fyddai gwneud hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ynadon mewn achosion lle yr achosir difrod sylweddol a bod gan y troseddwr fodd i dalu.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 34) Sut y gallai canllawiau dedfrydu gefnogi dull mwy cyson o bennu gwerth gorchmynion iawndal?
- 35) A fyddai cael gwared â'r uchafswm o £5,000 ar orchymyn iawndal unigol yn y llysoedd ynadon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ynadon mewn achosion lle yr achosir difrod sylweddol a bod gan y troseddwr fodd i dalu?

3. Adsefydlu a diwygio

146. Gall gorchmynion cymunedol fod yn fwy effeithiol na dedfrydau byr o garchar o ran lleihau troseddu yn y dyfodol: Mae troseddwy'r a ryddheir o ddedfrydau o garchar dioed o lai na 12 mis yn aildroseddu ar raddfa uwch na throseddwy'r sy'n derbyn gorchmyn llys. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng 5.9 a 8.3 o bwyntiau canran am y blynyddoedd 2005 i 2008. Yn 2008 yr oedd y gwahaniaeth yn 8.3 o bwyntiau canran.
147. Rydym yn ceisio gwelliannau pellach ar y llwyddiannau hyn drwy weithio mewn partneriaeth â phobl a mudiadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ganfod atebion cynaliadwy sy'n lleihau aildroseddu ac yn gostwng trosedd. Er enghraifft, mae gwaith ar y gweill i gael mwy o droseddwy'r i mewn i waith sefydlog yn dilyn eu rhyddhau drwy'r Rhaglen Waith, tra hefyd yn sicrhau bod mwy o droseddwy'r yn gwneud gwaith cynhyrchiol tra byddant yng ngharchar.
148. Yn yr un modd, rydym yn gweithio i wella'r asesiadau tai, y gwasanaethau cynghori a chefnogi y mae troseddwy'r sy'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn eu derbyn yn y carchar ac yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i wella mynediad at y sector rhentu preifat ar gyfer troseddwy'r sengl digartref - sy'n cyfrif am gyfran helaeth o droseddwy'r sydd mewn perygl - drwy nifer o gynlluniau a redir ledled Cymru a Lloegr.
149. Mae'r bennod hon yn nodi gwaith sydd yn mynd rhagddo i gefnogi gwelliannau pellach yn y ffordd y mae dedfrydau cymunedol yn mynd i'r afael ag aildroseddu. Mae'n disgrifio ein cynlluniau i roi cynlluniau peilot ar waith yng nghyswllt talu yn ôl canlyniadau ar gyfer gorchmynion cymunedol, a fydd yn digwydd ar raddfa fawr mewn nifer o ardaloedd Ymddiriedolaethau Prawf. Mae'n archwilio beth mwy y gellir ei wneud i fynd i'r afael â materion allweddol ar gyfer llawer o droseddwy'r, megis anghenion iechyd, a sut y gallwn wneud mwy i gefnogi merched sy'n droseddwy'r. Yn benodol, mae'n nodi cynigion i fynd i'r afael â throseddu cysylltiedig ag alcohol, ac yn ceisio barn ar y sgôp ar gyfer cynllun sobrwydd gorfodol newydd.

Talu yn ôl canlyniadau

150. Rydym yn arloesi gyda thalu yn ôl canlyniadau - lle yr ydym yn talu i ddarparwyr yn ôl eu llwyddiant o ran lleihau aildroseddu. Mae hyn yn newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn comisiynu gwasanaethau troseddwy'r. Drwy droi pwyslais darparwyr yn ôl ar adsefydlu troseddwy'r, a darparu cymhelliant ariannol clir i lwyddo, byddwn yn annog canolbwyntio'n ddygn ar leihau aildroseddu. Byddwn yn rhoi rhyddid iddynt weithio gyda throseddwy'r mewn ffyrdd newydd ac arloesol, ac yn

ceisio ymestyn ac arallgyfeirio'r farchnad darparwyr gwasanaethau troseddwyr.

151. Anelwn at gymhwyso egwyddorion talu yn ôl canlyniadau i holl ddarparwyr gwasanaethau troseddwyr erbyn 2015. Rydym yn profi'r dull hwn drwy gyfres o gynlluniau peilot cychwynnol. Mae'r peilotiaid hyn eisoes wedi cychwyn mewn dau garchar preifat, gyda dau arall mewn carchardai sector cyhoeddus i ddilyn yn 2012. Rydym yn cyfrannu at wyth peilot adfer ar gyfer cyffuriau ac alcohol sy'n cael eu rhedeg gan yr Adran Iechyd ac rydym yn profi, drwy ddau beilot gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, sut y gallwn roi mwy o anogaeth i ddarparwyr Rhaglenni Gwaith i leihau aildroseddu. Mae dau gynllun peilot pellach yn canolbwyntio ar droseddwyr yn y gymuned, dan reolaeth Ymddiriedolaethau Prawf Cymru, a Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr, ac maent yn cael eu datblygu yn unol â'n cynigion ehangach ar gyfer diwygio gwasanaethau prawf.
152. Ar gyfer y ddau gynllun peilot cymunedol, bydd cyfran o gyllid yr Ymddiriedolaeth sy'n cymryd rhan yn cael ei rhoi 'mewn perygl', gyda thâl yn dibynnu ar adsefydlu troseddwyr yn llwyddiannus. Os bydd y cynlluniau peilot yn cwrdd â'u targedau, a gaiff eu mesur drwy ostyngiad mewn ail-euogfarnau, yna bydd yr arian 'mewn perygl' yn cael ei dalu. Bydd trosgyflawni'n denu'r potensial ar gyfer taliadau ychwanegol am lwyddiant, ond bydd methiant i gwrdd â'r targed ar gyfer ail-euogfarnau yn golygu na wneir taliad o gwbl.
153. Gan fod y dull gweithredu hwn yn golygu trosglwyddo risg ariannol o'r Llywodraeth i'r darparwr, ni all y ddwy Ymddiriedolaeth Prawf sector cyhoeddus gymryd rhan yn uniongyrchol ar eu ffurf bresennol. Bydd y cynlluniau peilot yn profi sut y gall trefniadau masnachol a chytundebol newydd rhwng Ymddiriedolaethau Prawf a phartneriaid o'r tu allan i'r sector cyhoeddus alluogi darparu gwasanaethau prawf ar sail talu yn ôl canlyniadau. Bydd darparwyr y cynlluniau peilot yn derbyn rhyddid a hyblygrwydd newydd i ganiatáu iddynt ddatblygu a chyflwyno modelau arloesol ar gyfer darparu gwasanaeth,
154. Bydd y cynlluniau peilot yn dechrau yn 2013 ac yn rhedeg am hyd at 4 blynedd. Mae'r sgôp terfynol eto i'w gytuno, ond y mae'n debygol y bydd cyfran sylweddol o lwyth gwaith dedfrydau cymunedol pob Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys, fel y gallwn fod yn hyderus o ran y canlyniadau a welwn. Bydd y ddau gynllun peilot yn cael eu gwerthuso'n annibynnol, a bydd y gwersi a ddysgir yn goleuo ein strategaeth ar gyfer cymhwyso egwyddorion talu yn ôl canlyniadau yn fwy eang i wasanaethau troseddwyr.

Troseddwyr sy'n ferched

155. Rydym wedi ymroi i roi sylw i droseddu gan ferched – er budd yr unigolyn ac er budd cymdeithas. Ar hyn o bryd rydym yn gwario amcangyfrif o £80m y flwyddyn ar oedolion o ferched sy'n bwrw dedfrydau cymunedol a dedfrydau gohiriedig, ac mae merched yn

gwneud ychydig yn well na dynion ar y dedfrydau hyn. Dengys data bod cyfran ychydig yn uwch o ferched yn cael canlyniadau cadarnhaol (yn cwblhau'r ddedfryd yn llwyddiannus neu'n cael ei therfynu'n gynnar am wneud cynnydd da), tra bo cyfran ychydig yn is o ferched na dynion yn methu â chydymffurfio â gofynion neu wedi'u cael yn euog o drosedd arall tra'n bwrw gorchmynion cymunedol (22% o ferched a 26% o ddynion). Fodd bynnag, mae merched yn llai tebygol na dynion o dderbyn dedfryd gymunedol. Yn 2010 dim ond 10% o ferched a dderbyniodd ddedfryd gymunedol o gymharu â 16% o ddynion.

156. Yn *Torri'r Cylch*, cydnabuwyd gennym fod troseddwyr sy'n ferched yn tueddu i fod â phroblemau niferus, a mwy cymhleth o'r herwydd, yn ymwneud â'u troseddu, gan gynnwys problemau iechyd meddwl a chamdrin sylweddau, yn ogystal ag anghenion o ran addysg, cyflogaeth a pherthnasoedd. Yn ei hymateb, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2011, rhoddodd y Llywodraeth ymrwymiad y byddai, wrth geisio lleihau troseddu, yn cymryd i ystyriaeth broffil gwahanol troseddu gan ferched.
157. Y mae'n bwysig felly ein bod yn sicrhau bod dedfrydau cymunedol nid yn unig yn ystyrion gosbol, ond hefyd eu bod yn cefnogi merched o ran rhoi sylw i'w anghenion fel rhan o'r broses adsefydlu. Gallent wneud y system cyfiawnder yn fwy synhwyrol mewn rhai sefyllfaoedd, megis wrth sicrhau bod opsiynau teilwng, heb fod yn rhai cosbol ar gyfer troseddwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu lle y byddai iddynt gael eu hanfon i garchar yn achosi anhrefn i blant diniwed yn eu teuluoedd. Nodwyd yn flaenorol gennym ym mharagraff 39 y posibilrwydd o roi cyrffiw a allai weithio o gwmpas cyfrifoldebau gofal plant unigolyn, neu deilwra gofynion i ymdrin â materion iechyd meddwl troseddwr. Gallai'r dulliau hyn fod o fudd cadarnhaol i ferched sy'n troseddu a'u helpu i gynnal bywyd teuluol sefydlog. Yn yr un modd, byddai ein cynnig i greu opsiwn newydd ar gyfer rheolwyr troseddwyr i ymdrin â thorri amodau, o roi cosb ariannol heb ddychwelyd i'r llys, yn helpu i ostwng nifer y troseddwyr benywaidd sydd yn y ddalfa: yn 2009 cofnodwyd i 415 o ferched fynd i'r ddalfa ar eu hunion oherwydd eu bod wedi torri amodau dedfryd gymunedol.
158. Mae nifer sylweddol o droseddwyr sy'n ferched eisoes wedi cael eu cynorthwyo a'u cefnogi yn y gymuned drwy rwydwaith o ddarpariaeth gymunedol ar gyfer merched, a ddatblygwyd drwy gydweithrediad clos rhwng y gwasanaeth prawf a'r sector gwirfoddol. Mae'r prosiectau hyn yn darparu cefnogaeth gyfannol i ferched yn y gymuned drwy fynd i'r afael ag ystod o broblemau gan gynnwys dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau. Cyfunir hyn ag ymyriadau sy'n anelu at gynorthwyo merched sy'n troseddu i ddod i delerau â materion megis camdriniaeth gorfforol a rhywiol. Yn 2012/13 bydd NOMS yn parhau i ariannu'r mwyafrif helaeth o Wasanaethau Cymunedol i Ferched – oddeutu 30 i gyd i weithio gyda thros 5,000 o ferched. Mae hwn yn ymrwymiad newydd am gyfanswm o £3.5m.
159. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn edrych ar gyfleoedd i ferched gwblhau eu gorchmynion Gwneud lawn â'r Gymuned mewn lleoliadau priodol yn lle, fel arall, eu bod yn debygol o fod yr unig fenyw mewn grŵp gwaith.

Mae sawl canolfan gymunedol i ferched eisoes wedi datblygu ymarfer gan gynnwys yn Birmingham, Blackpool, Scarborough, Caer-lŷr, Norwich a Bryste.

160. Wrth fynd i'r afael â phroblemau cyffuriau a iechyd meddwl, ymysg gwaith arall ynghylch talu yn ôl canlyniadau a gwasanaethau cydgysylltu a dargyfeirio, byddwn yn datblygu pedwar dewis gwahanol i garcharu dwys a seiliedig ar driniaeth ar gyfer merched yn unig yng Nghilgwri, Bryste, Birmingham a Tyneside. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio dysgu gwersi o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi merched bregus yn y gymuned lle nad oes unrhyw risg i'r cyhoedd.
161. Yn ogystal, datblygwyd y Rhaglen Staff - Ymwybyddiaeth o Ferched, i hyfforddi'r rhai sy'n gweithio gyda throseddwyr sy'n ferched ac sy'n ddiodefwrwyr trais domestig a chamdriniaeth yn y gymuned; a bydd yr hyfforddiant Gweithwyr Rhyw yng Ngharchar ac yn y Gymuned yn codi ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd gweithwyr rhyw ar y strydoedd, ac yn sicrhau bod y merched hyn sy'n troseddu yn cael eu cyfeirio'n well at wasanaethau arbenigol priodol.

Astudiaeth Achos – canolfan merched 'Anawim'

Roedd "Jane" (19) â rhan yn y terfysgoedd a rhoddwyd dedfryd ohiriedig o 2 flynedd iddi, 200 awr o Wneud lawn â'r Gymuned a Gorchymyn Gweithgaredd Penodol am 60 diwrnod. Ar y dechrau roedd yn methu llawer o apwyntiadau Gwneud lawn â'r Gymuned oherwydd salwch.

Pan gyfeiriwyd hi i ganolfan merched Anawim, roedd Jane yn byw mewn hostel (oherwydd dyledion rhent a phroblemau iechyd meddwl ei mam), ar Lwfans Ceisio Gwaith, yn dioddef o bryder ac iselder difrifol, dyslecsia, ac epilepsi, a phroblemau yfed. Roedd Jane yn teimlo'n ddig yn dilyn mis ar remand mewn carchar a chael ei harasio gan drigolion eraill yr hostel, ac yr oedd yn cael trafferth cyfathrebu sut yr oedd yn teimlo. Deallodd Anawim i Jane ddioddef cam-drin rhywiol a chael ei threisio'n flaenorol a'i bod yn cael trafferth dod i delerau â'r cam-drin hwn.

Aseswyd Jane gan Nyrs Seiciatrïg Gymunedol yn Anawim, a ddarparodd gefnogaeth 1-1 hyd nes iddi gael apwyntiad gya Seicolegydd Clinigol, ac yn ystod y cyfnod hwn cymerodd Jane or-ddos gan nad oedd yn ymdopi â'i materion. Mynychodd Jane nifer o weithdai yn Anawim, gan gynnwys Rheoli Dictor a Hyder a Hunan-barch.

Gyda'r gefnogaeth hon, bu modd i Jane ymatal rhag yfed alcohol a rheoli ei dictor, gan arwain at berthynas well gyda'i mam. Galluogodd hyn i Jane ddychwelyd i fyw dros dro gyda'i mam tra yr oedd Anawim yn ei helpu i wneud cais am dŷ cymdeithasol. Mynychodd Jane ei holl sesiynau yn Anawim, roedd yn cyfathrebu mwy, yn llai tebygol o golli ei thymher ac wedi peidio â chael syniadau cyfredol ynghylch hunan-niweidio neu ladd ei hun. Dechreuodd gymryd rheolaeth, ceisio cymorth yn rhagweithiol i ddatrys problemau gyda budd-daliadau. Wedi i Jane ddechrau mynychu Anawim nododd y Gwasanaeth Prawf welliant sylweddol yn ei phresenoldeb a'i hymgysylltu â Gwneud lawn â'r Gymuned.

162. Mae rôl eglur a chynyddol i'r sector gwirfoddol a chymunedol o ran darparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion amrywiol merched sy'n droseddwyr, gan adeiladu ar y gwaith da hwn sydd eisoes yn digwydd. Yn y dyfodol, fel rhan o agenda Lleoleiddio'r Llywodraeth, bydd ein dull gweithredu'n seiliedig ar ddarparu gwasanaethau a dargedir ar lawr gwlad, gyda chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau penodol i'r rhywiau a gwasanaethau cyfannol yn cael eu hadeiladu i mewn i bob Ymddiriedolaeth Prawf fel rhan o ddarparu gwasanaeth lleol cynhwysfawr.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 36)** Ym mha ffordd arall y gallai ein cynigion ar ddedfrydau cymunedol helpu anghenion penodol merched sy'n droseddwyr?

Iechyd

163. Mae mynd i'r afael â'r ffactorau iechyd sy'n arwain at droseddu, neu'n cyfrannu tuag ato, yn hanfodol i'n llwyddiant o ran lleihau aildroseddu. Mae nifer o feysydd gwaith pwysig ar y gweill i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.
164. Anelwn at fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau drwy weithio mewn partneriaeth glos â'r Adran Iechyd. Bydd hyn yn gweithio ochr yn ochr â chynllun peilot ar gyfer adeiniau gwella digyffuriau mewn 5 carchar, yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sy'n derbyn dedfrydau byr o garchar. Nod y rhaglenni hyn yw cysylltu'n fwy effeithiol â gwasanaethau cymunedol yn dilyn rhyddhau a chanolbwyntio ar gefnogi troseddwr i ddod yn rhydd o gyffuriau, gan annog ymatal rhag cyffuriau a symud tuag at wella. Bwriadwn roi ail set o adeiniau gwella yn dilyn cyffuriau ar waith mewn 5 carchar arall, gan gynnwys tri mewn carchardai i ferched ac mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Adran Iechyd wrth lunio a gweithredu cynlluniau peilot ar gyfer gwella yn dilyn bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol a fydd yn sbardun pellach i gyflwyno gwella, gan gynnwys lleihau troseddu, drwy brofi model talu yn ôl canlyniadau. Mae pedair ardal leol yn gweithio gyda llywodraeth ganolog i lunio'r manylion ar y cyd a bydd pob safle yn dechrau gweithredu erbyn Ebrill 2012.
165. Byddwn yn rhoi sylw i faterion iechyd meddwl drwy weithio gyda'r Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref i gyflwyno gwasanaethau cydgysylltu yn nalfa'r heddlu ac yn y llysoedd i ganfod anghenion a rhoi camau digonol yn eu lle ar y cyfle cyntaf posibl.
166. Rydym yn dymuno archwilio a phrofi opsiynau ar gyfer dewisiadau gwahanol ar gyfer triniaeth ddwys yn y gymuned yn lle carchar ar gyfer troseddwr sy'n gaeth i gyffuriau neu â phroblemau iechyd meddwl. Mae pedair ardal beilot eisoes ar waith ac mae cynlluniau peilot eraill wedi eu trefnu ar gyfer eleni. Rydym hefyd yn bwriadu cael gwared â'r

cyfyngiadau ar hyd gofynion triniaeth am alcohol a chyffuriau er mwyn eu gwneud yn opsiwn mwy hyblyg i'w defnyddio gan y llysoedd. Drwy symleiddio'r broses asesu, rydym hefyd yn ei gwneud yn haws i lysoedd ddefnyddio'r gofyniad triniaeth iechyd meddwl a sicrhau bod y rhai sydd angen triniaeth o'r fath yn ei derbyn cyn gynted â phosibl.

Mynd i'r afael â throseddau cysylltiedig ag alcohol

167. Gwyddom fod angen i ni wneud mwy i fynd i'r afael yn benodol â throseddau cysylltiedig ag alcohol sy'n parhau'n broblem sylweddol. Mae nifer yr achosion lle y mae alcohol yn ffactor yn uchel - credir bod oddeutu 44% o'r rhai sy'n cyflawni troseddau treisgar dan ddylanwad alcohol. Rydym yn cymryd camau ychwanegol i fynd i'r afael â'r materion hyn.
168. Fel y nodir yn Strategaeth Alcohol y Llywodraeth a gyhoeddwyd ddydd Gwener 23 Mawrth 2012, rydym yn bwrw ymlaen ag ystod eang o gamau traws-Lywodraethol i fynd i'r afael â mater goryfed alcohol, gan gynnwys cyflwyno isafswm pris uned ar gyfer alcohol a gweithio i adfer cydbwysedd y Ddeddf Trwyddedu o blaid cymunedau drwy roi mwy o bwerau i'r heddlu a swyddogion trwyddedu i fynd i'r afael â busnesau anghyfrifol. Byddwn yn ymgynghori ar nifer o'r cynigion hyn yn y misoedd i ddod.
169. Mae gwaith ar y gweill hefyd i gryfhau rhaglenni i leihau trais i gynnwys mwy o bwyslais ar fynd i'r afael ag effaith alcohol a chyffuriau ar droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn, ac rydym yn rhedeg cynllun peilot ar Orchmynion Gwahardd Yfed mewn 50 o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr sy'n gwahardd unigolion rhag ymgymryd â gweithgareddau megis mynd i mewn i adeiladau sydd wedi'u trwyddedu i gyflenwi alcohol. Mae manau cyhoeddus yn cael eu hamddiffyn yn fwy effeithiol rhag troseddau cysylltiedig ag alcohol ac anhrefn drwy wneud mwy o ddefnydd o Orchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig i gyfyngu ar yfed a'i reoli. Yr ydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddiwygiadau i'r ystod eang o arfau sydd ar gael ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, gan gynnwys ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu droseddol cysylltiedig ag alcohol. Ein nod yw sicrhau bod gan ardaloedd lleol set o arfau a phwerau wedi'u symleiddio a fydd yn fwy effeithiol ac yn fwy hyblyg, a byddwn yn nodi mwy o fanylion am hyn cyn bo hir.
170. Ar gyfer troseddau sydd â dibyniaeth ar alcohol, sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol, ac sy'n croesi'r trothwy dedfryd gymunedol, bydd Gofynion Triniaeth am Alcohol (ATR) yn parhau i fod ar gael i'r llys fel dull effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym yn cymryd camau drwy'r Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddau i'w gwneud yn haws i'r llys osod y gofynion hyn, fel rhan o orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, drwy gael gwared ar yr isafswm hyd. Byddant yn caniatáu i'r llys roi ATR mewn amgylchiadau lle

y dymunant roi cyfnod byrrach o driniaeth ddwys fel rhan o'r gorchymyn y gellir ei ddilyn gan gefnogaeth bellach, mwy anffurfiol drwy wasanaethau iechyd cymunedol.

171. Fodd bynnag, gwyddom fod nifer sylweddol o droseddwr yn bobl â phroblem yfed nad ydynt yn dod i'r categori dibyniaeth. Rydym felly'n gweithio gyda'r Adran Iechyd ac adrannau eraill y Llywodraeth i edrych beth arall y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â throsteddu cysylltiedig ag alcohol gan y rhai sy'n camddefnyddio alcohol ond heb fod yn ddibynnol arno. Mae'r Strategaeth Alcohol traws-Lywodraethol yn rhoi mwy o wybodaeth am ein cynlluniau yn y maes hwn.
172. Ar gyfer troseddwr nad ydynt yn cyrraedd trothwy dibyniaeth sy'n ofynnol ar gyfer ATR ond sy'n cael problemau gydag alcohol, gall y llysoedd ddefnyddio gofynion goruchwyllo a gweithgaredd i'w cyfeirio at wasanaethau cefnogi a chyngor i helpu i fynd i'r afael â'u hangen a gofynion rhaglen sy'n mynd i'r afael yn benodol â'u hymddygiad troseddol. Rydym eisiau annog mwy o ddefnydd o opsiynau eraill ar gyfer darparu ymyriadau'n ymwneud yn benodol ag alcohol ar gyfer rhai sydd â phroblem yfed megis Gofyniadau Gweithgarwch Penodol - Alcohol (ASAR) sydd wedi'u cyflwyno mewn rhai ardaloedd.
173. Mae defnydd ac arfer y math yma o ofynion yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd a dywedodd sawl rhanddeiliad wrthym drwy ymgynghoriad *Torri'r Cylch* bod gwahaniaethau mawr o ran ymarfer a darparu gwasanaeth yn ogystal ag angen i ail-archwilio'r mecanweithiau comisiynu a darparu ar gyfer gwasanaethau alcohol i droseddwr. Mae'r rhain yn faterion y byddwn yn edrych arnynt yn y Strategaeth Alcohol - ynghylch sut y gallwn ganfod troseddwr ag anghenion cysylltiedig ag alcohol yn well; datblygu dadansoddiad cost-budd gwell ar gyfer ymyriadau a rhaglenni alcohol ac edrych sut y gall ASAR gael eu datblygu ymhellach i dargedu'r nifer fawr o rai sydd â phroblem yfed sy'n derbyn dedfrydau yn y gymuned.

Profi'r achos dros gynlluniau sobrwydd

174. Cynnig arall yr ydym wedi bod yn ei ystyried i helpu i fynd i'r afael â throsteddu cysylltiedig ag alcohol yw cynlluniau sobrwydd gorfodol. Mae cynlluniau sobrwydd gorfodol wedi'i gweithredu gyda pheth llwyddiant yn yr Unol Daleithiau, yn enwedig cynllun sobrwydd gorfodol 24/7 yn Ne Dakota. Datblygwyd y cynllun fel dull caled o fynd i'r afael â lefelau uchel o achosion yfed a gyrru yn y Dalaith. Yn ddiweddarach cafodd y cynllun ei ymestyn i ystod ehangach o drosedd ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol. Dan fodel De Dakota:
 - Mae gorchymyn sobrwydd gorfodol ar gael fel dewis arall yn lle carchar;
 - Rhaid i'r troseddwr gael dau brawf y diwrnod mewn lleoliad dynodedig;
 - Rhaid iddynt dalu am bob prawf - \$1 y prawf;

- Os bydd y troseddwr yn methu'r prawf, neu ddim yn dod amdano, bydd yn cael ei arestio a'i ddychwelyd i'r llys mor gyflym â phosibl.
 - Yn dilyn pob enghraifft o dor-amod gall y barnwr roi ystod o gosbau e.e. cyfnod o garchar; ei roi yn ôl ar orchymyn cymunedol ayb.
175. Oherwydd y gwahaniaethau o ran systemau cyfreithiol a demograffeg Cymru a Lloegr o'u cymharu â De Dakota, nid yw'n bosibl canfod drwy dystiolaeth gynlluniau'r UDA a fyddai cynllun sobrwydd gorfodol yn arwain at ostyngiad mewn aildroseddu yn y wlad hon. Yr ydym, fodd bynnag, yn awyddus i ystyried effaith cynlluniau tebyg yng Nghymru a Lloegr ac mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â dau gynllun peilot 'profi cysyniad' i dreialu cynlluniau sobrwydd gorfodol yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn defnyddio'r cynlluniau peilot hyn i brofi pwrpas ac effaith sobrwydd gorfodol i sefydlu ym mha amgylchiadau y byddai'n briodol ac effeithiol i osod gofyniad o'r fath yn hytrach na cheisio ymyriadau neu ffurfiau eraill o driniaeth.
176. Bydd y cynllun peilot cyntaf yn canolbwyntio ar rybuddion amodol, wedi'u targedu ar droseddau megis bod yn feddw ac afreolus, difrod troseddol ac anhrefn cyhoeddus sy'n cyfrif am swm sylweddol o droseddau cysylltiedig ag alcohol. Mae'r amod yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr ymatal rhag yfed ar y dyddiau pryd y maent yn fwyaf tebygol o droseddu o ganlyniad i alcohol a mynychu gorsaf heddlu ar y diwrnodau hynny e.e. dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul, lle byddant yn cael eu profi gan ddefnyddio prawf anadl. Rydym wedi cyhoeddi'r ardaloedd prawf yn *Strategaeth Alcohol y Llywodraeth*. Dylai'r rhybuddion amodol cyntaf yn gorfodi sobrwydd gael eu cyflwyno o Ebrill/Mai.
177. Bydd yr ail gynllun peilot yn profi sobrwydd fel rhan o'n hymateb i droseddau mwy difrifol sy'n gysylltiedig ag alcohol gan edrych ar y defnydd o ddedfrydau cymunedol. Bydd yn canolbwyntio ar droseddau lle y mae alcohol yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu at y trosedd, megis ymosodiad cyffredin, gwir niwed corfforol, niwed corfforol difrifol, affrae ac anhrefn ffyrnig.
178. I wneud darpariaeth ar gyfer hyn, mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â darpariaethau yn y Mesur Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr i roi grym newydd i'r llysoedd osod *Gofyniad Ymatal Rhag Alcohol a Monitro* fel rhan o orchymyn cymunedol neu ddedfryd ohiriedig i droseddwr sydd wedi cyflawni trosedd cysylltiedig ag alcohol.
179. Dan y gofyniad newydd:
- Bydd gofyn i droseddwr ymatal rhag yfed am gyfnod a bennir gan y llys (hyd at 120 o ddiwrnodau).
 - Bydd gofyn iddynt un ai fynychu gorsaf heddlu neu ganolfan brofi i gael eu monitro gan offer profi anadl, neu wisgo tag alcohol am eu sawdl. Rydym yn y broses o brofi technoleg tagio alcohol i'r diben hwn.

- Y prawf ar gyfer rhoi gofyniad o'r fath fyddai cyswllt rhwng yfed alcohol a'r ymddygiad troseddol.
180. Ar y cam treialu cyntaf, nid ydym yn cynnig cynnwys troseddau trais domestig. Nid ydym yn dadlau nad yw alcohol yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu at achosion trais domestig, a'i fod yn fater sylweddol y mae'n rhaid i ni barhau i roi sylw iddo. Fodd bynnag, mae'r pethau sy'n achosi trais domestig yn llawer mwy dwfn nag effeithiau yfed yn unig. O'r herwydd mae'n hanfodol bod unrhyw gamddefnydd ar alcohol yn cael ei drin ar y cyd â mynd i'r afael â'r ymddygiad treisgar a bod camau ystyriol a chyfannol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion sydd wrth wraidd cam-drin domestig. Unwaith y byddwn wedi asesu'r cynlluniau peilot cychwynnol a dysgu gwersi yna gallwn feddwl ymhellach am gymhwyso sobrwydd i fathau eraill o droseddau a sefydlu pa amddiffyniadau digonol sydd angen bod yn eu lle er mwyn gwneud hynny.
181. Bydd y ddau gynllun peilot hyn yn darparu tystiolaeth berthnasol o ran ymarferoldeb ei gwneud yn ofynnol i droseddwr ymatal rhag yfed. Yn benodol, ar gyfer y cynllun peilot dedfrydau cymunedol rydym eisiau profi sut y byddai gofyniad o'r fath yn cael ei weld a'i ddefnyddio gan y llysoedd wrth ddod i benderfyniad ynghylch priodoldeb gofyniad sobrwydd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 37) Beth yw barn yr ymarferwyr o ran rhoi gofynion sobrwydd gorfodol ar waith?
- 38) Ar gyfer pwy fyddai sobrwydd gorfodol yn briodol?
- 39) A yw gofynion sobrwydd gorfodol yn briodol ar gyfer eu defnyddio mewn achosion o drais domestig?
- 40) Pa ddarpariaethau eraill allai fod angen bod yn eu lle i gefnogi cyflwyno gofynion sobrwydd gorfodol?
- 41) Pa feysydd eraill allai gael eu hystyried i fynd i'r afael â throseddu cysylltiedig ag alcohol gan rai sy'n camddefnyddio alcohol ond heb fod yn yfwyr dibynnol?

Atodiad A – effeithiau ar gydraddoldeb

Er mwyn goleuo ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ar wahân o effeithiau posibl ein cynigion ar gydraddoldeb. Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn ystyried effaith posibl ein cynigion yn ôl nodweddion gwarchoddedig oedran, anabledd, newid rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn croesawu sylwadau am gywirdeb a graddau'r effeithiau a ganfuwyd. Croesawn yn benodol ymatebion gan bobl sy'n ystyried eu hunain fel rhai'n rhannu nodwedd warchoddedig neu gan grwpiau â diddordeb yn cynrychioli rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i'r Llywodraeth benderfynu'r ffordd orau ymlaen yn dilyn terfyn y cyfnod ymgynghori.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 42) Beth yn eich barn chi yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynigion ar gydraddoldeb?
- 43) Allech chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall ac asesu'r effeithiau hynny?
- 44) Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb?
- 45) Lle y teimlwch ein bod o bosibl wedi colli cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a bod gennych gynnig ar sut y gallem roi sylw i hyn, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda fel y gallwn ei ystyried fel rhan o'n proses ymgynghori.

Atodiad B – rhestr o holl gwestiynau'r ymgynghoriad

1. Pa elfennau craidd ddylai Cosb Gymunedol Ddwys eu cynnwys?
2. Ar gyfer pa droseddwyr fyddai Cosb Gymunedol Ddwys yn addas?
3. Ydych chi'n cytuno y dylai pob troseddwr sy'n derbyn gorchymyn cymunedol fod yn destun sancsiwn gyda'r nod pennaf o gosbi'r troseddwr ('elfen gosbol')?
4. Pa rai o ofynion y gorchymyn cymunedol sy'n gosbol yn eich barn chi?
5. A oes rhai dosbarthiadau o droseddwyr (neu amgylchiadau penodol) na fyddai elfen gosbol dedfryd yn addas ar eu cyfer?
6. Sut y dylid dedfrydu troseddwyr o'r fath?
7. Sut y gallwn ni sicrhau orau bod dedfrydau yn y gymuned yn cyflawni cydbwysedd rhwng pob un o'r pum diben dedfrydu?
8. A ddylem, pe byddai technolegau ar gael ac yn fforddiadwy, annog defnyddio technoleg monitro electronig i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion gorchymyn cymunedol (yn ogystal â gofynion cyrffiw)?
9. Pa ofynion gorchymyn cymunedol, yn ogystal â chyrffiw, a allai gael eu monitro'n fwyaf effeithiol yn electronig.
10. A oes ffyrdd eraill y gallem ddefnyddio cyrffiw a gaiff ei fonitro'n electronig yn fwy dychmygus?
11. A fyddai olrhain rhai troseddwyr penodol (fel rhan o ddedfryd ddigarchar) yn effeithiol o ran atal troseddu yn y dyfodol?
12. Pa fathau o droseddwyr fyddai'n addas ar gyfer eu holrhain? Er enghraifft, rhai â risg uchel o aildroseddu neu achosi niwed, gan gynnwys troseddwyr rhyw a throeddwyr treisgar?
13. I ba ddiben y gellid defnyddio monitro electronig orau?
14. Beth yw goblygiadau olrhain troseddwyr o ran rhyddid sifil a beth ddylem ni ei wneud i roi sylw iddynt?
15. Ar ba droseddwyr neu droseddau y gallai grym newydd i orchymyn atafaelu asedau ganolbwyntio'n fwyaf defnyddiol?
16. Sut y gellir llunio'r grym i orchymyn atafaelu asedau er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol yn yr un modd i droseddwyr ag asedau o werth isel a'r troseddwyr hynny sydd ag asedau o werth uchel?
17. Pa amddiffyniadau a darpariaethau fyddai eu hangen ar rym atafaelu asedau er mwyn ymdrin â hawliau eiddo trydydd parti?
18. Beth fyddai'n gosb briodol ar gyfer torri amodau gorchymyn atafaelu asedau?
19. Sut y gellir gwella cydymffurfio â dedfrydau cymunedol?

20. A fyddai cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig ar gyfer ymdrin â methu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol yn debygol o hyrwyddo mwy o gydymffurfio
21. A fyddai cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig ar gyfer ymdrin â methu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol yn briodol ar gyfer gweinyddu gan reolwyr troseddwy?
22. Pa faterion ymarferol y mae angen i ni eu hystyried ymhellach yng nghyswllt cynllun tebyg i gynllun cosb benodedig i ymdrin â chydymffurfio â gofynion gorchymyn cymunedol?
23. Sut y gellir cefnogi awduron adroddiadau cyn-dedfrydu i gynghori llysoedd ar y defnydd o ddirwyon a dedfrydau eraill nad ydynt yn orchmynion cymunedol?
24. Sut arall y gellir annog llysoedd i wneud defnydd mwy hyblyg o ddirwyon ochr yn ochr, neu yn lle, gorchmynion cymunedol?
25. Sut allwn ni ysgogi troseddwy yn well i roi gwybodaeth gywir am eu hamgylchiadau ariannol i'r llysoedd mewn modd amserol?
26. Sut allwn ni sefydlu sail tystiolaeth well ar gyfer RJ cyn-dedfrydu?
27. Beth yw manteision a risgiau RJ cyn-dedfrydu?
28. Sut allwn ni geisio lliniaru unrhyw risgiau ac uchafu unrhyw fanteision RJ cyn-dedfrydu?
29. A oes mwy y gallwn ei wneud i gryfhau a chefnogi rôl dioddefwyr o ran cyfiawnder adferol?
30. A oes ymarferion presennol ar gyfer ymgysylltiad dioddefwyr ag RJ y gallwn ddysgu oddi wrthynt?
31. Ai'r rhain yw'r dulliau cywir? Beth yn fwy allwn ni ei wneud i alluogi ardaloedd i adeiladu capasiti a gallu ar gyfer cyfiawnder adferol ar lefel leol?
32. Beth yn fwy allwn ni ei wneud i hybu newid diwylliannol ar gyfer RJ?
33. Sut allwn ni sicrhau y darperir yr wybodaeth orau bosibl i lysoedd ynghylch anaf, colled neu ddifrod er mwyn cefnogi penderfyniadau ynghylch a ddylid rhoi gorchymyn iawndal?
34. Sut y gallai canllawiau dedfrydu gefnogi dull mwy cyson o bennu gwerth gorchmynion iawndal?
35. A fyddai cael gwared â'r uchafswm o £5,000 ar orchymyn iawndal unigol yn y llysoedd ynadon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ynadon mewn achosion lle yr achosir difrod sylweddol a bod gan y troseddwy'r fodd i dalu?
36. Ym mha ffordd arall y gallai ein cynigion ar ddedfrydau cymunedol helpu anghenion penodol merched sy'n droseddwy?
37. Beth yw barn yr ymarferwyr o ran rhoi gofynion sobrwydd gorfodol ar waith?
38. Ar gyfer pwy fyddai sobrwydd gorfodol yn briodol?

39. A yw gofynion sobrwydd gorfodol yn briodol ar gyfer eu defnyddio mewn achosion o drais domestig?
40. Pa ddarpariaethau eraill allai fod angen bod yn eu lle i gefnogi cyflwyno gofynion sobrwydd gorfodol?
41. Pa feysydd eraill allai gael eu hystyried i fynd i'r afael â throsteddu cysylltiedig ag alcohol gan rai sy'n camddefnyddio alcohol ond heb fod yn yfwyr dibynnol?
42. Beth yn eich barn chi yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynigion ar gydraddoldeb?
43. Allech chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall ac asesu'r effeithiau hynny?
44. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb?
45. Lle y teimlwch ein bod o bosibl wedi colli cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a bod gennych gynnig ar sut y gallem roi sylw i hyn, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda fel y gallwn ei ystyried fel rhan o'n proses ymgynghori.

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd, ayb)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / sefydliad (lle bo hynny'n berthnasol)	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon unrhyw gydnabyddiaeth iddo, os yn wahanol i'r cyfeiriad uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt / Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn 22 Mehefin at:

**Gwasanaethau Prawf Effeithiol
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Post Point 8.22
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

E-bost: effectivecommunitysentences@justice.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/effective-community-sentences>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill oddi wrth I effectivecommunitysentences@justice.gsi.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymyngoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Bydd y papur ymatebion ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol, wrth ymateb, roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna Gôd Ymarferol statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â fo ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y gallwn gadw'r cyfrinachedd hwnnw bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd

awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Asesiad o Effaith

Mae Asesiad cychwynnol o Effaith yn dod law yn llaw â'r ddogfen hon, ac mae ar gael o'r cyfeiriad yn yr adran 'Sut i ymateb' uchod ac ar-lein yn at <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/effective-probation-services>

Cwblheir asesiad cost a budd llawn o'r cynigion yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Meini prawf yr ymgynghoriad

Mae'r saith maen prawf ar gyfer ymgynghori fel a ganlyn:

1. Pryd i ymgynghori – Dylid ymgynghori'n ffurfiol ar adeg pan fo sgôp i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Cyfnod ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau, fel arfer, bara o leiaf 12 wythnos, gan ystyried cyfnodau hirach pan fydd hynny'n ymarferol a synhwyrol.
3. Eglurder y sgôp a'r effaith – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, pa sgôp sydd i ddylanwadu a chost a manteision disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddo eu cyrraedd, a dylent fod wedi'u targedu'n glir atynt.
5. Baich yr ymgynghoriad – Mae sicrhau na fydd yr ymgynghoriad yn un beichus yn hanfodol os yw'r ymgynghoriad i fod yn effeithiol ac os am gael y bobl yr anelir yr ymgynghoriad atynt i gyfrannu at y broses.
6. **Ymateb i'r ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoi adborth clir i'r cyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.
7. **Y capasiti i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori geisio arweiniad ar sut i gynnal ymgynghoriad effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

Manylion cyswllt Cyd-gysylltydd yr Ymgynghoriad

Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at y person cyswllt a enwir dan yr adran Sut i Ymateb.

Ond os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch **proses** yr ymgynghoriad, dylech ffonio Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfon e-bost ati: consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Better Regulation Unit
Analytical Services
7th Floor, 7:02
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

